



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Deall denu a recriwtio yn sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru a rôl Gofalwn Cymru



Paratowyd gan



Urban  
Foresight



**Gofal Cymdeithasol Cymru**  
**Social Care Wales**

Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol yn Cymru, yn ogystal â gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil, cefnogi arloesi a chasglu data. Mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru aei sefydlu yn 2017.

**socialcare.wales**

**Gofalwn** | **WeCare**  
**.cymru** | **.wales**

Nod Gofalwn Cymru yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant a denu mwy o bobl gyda'r sgiliau a gwerthoedd cywir i weithio mewn rolau gofalu gyda phlant ac oedolion. Mae'n rhan o Ofal Cymdeithasol Cymru ac mae wedi bod yn rhedeg ers 2019.

**gofalwn.cymru**



**Urban**  
**Foresight**

Mae Urban Foresight® yn bractis arloesol amlddisgyblaethol sy'n gweithio i gyflymu'r genhedlaeth nesaf o dechnolegau, gwasanaethau a fframweithiau polisi ar gyfer dinasoedd.

Rydym yn gweithio â sefydliadau uchelgeisiol ledled y byd ar brosiectau sy'n gwella bywydau, gwarchod yr amgylchedd ac yn hybu economïau lleol.

**urbanforesight.org**

---

# Cwrdd â'n her

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen ymchwil ehangach i greu mewnwelediad i sut y gellir mynd i'r afael â heriau gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae'n cynnwys pum adroddiad a dau adnodd ychwanegol. Mae'r ddogfen hon wedi'i hamlygu.

## Pum adroddiad ar ddenu, recriwtio a chwilio am waith yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant:

Deall atyniad a recriwtio yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru a rôl Gofalwn Cymru

**Prif adroddiad**

Deall ymddygiadau ceisio gwaith: mewnwelediadau ar gyfer gofal cymdeithasol

**Prif adroddiad**

Deall atyniad a recriwtio yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru a rôl Gofalwn Cymru

**Prif adroddiad**

Deall atyniad a recriwtio yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru a rôl Gofalwn Cymru

**Adroddiad cryno**

Deall ymddygiadau ceisio gwaith: mewnwelediadau ar gyfer gofal cymdeithasol

**Adroddiad cryno**

## Dau adnodd ychwanegol i gefnogi cyflogwyr gofal a'r sector:

Gofal cymdeithasol a gofal plant: denu recriwtio a chadw

**Canllaw i gyflogwyr**

Adnodd ar gyfer cyflogwyr gofal cymdeithasol i bersonoli chwilio am waith

**Pecyn cymorth personas defnyddwyr**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r heriau denu a recriwtio ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant (BCGP) yng Nghymru gan ganolbwyntio ar rôl Gofalwn Cymru. Ei nod yw deall yr heriau presennol sy'n wynebu lleoliadau BCGP, a deall sut y gall Gofalwn Cymru gefnogi BCGP yn well o hyn ymlaen.

Cyflwynir tystiolaeth o adolygiadau desg ac ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill yng nghyd-destun BCGP Cymru gydag argymhellion sydd â'r bwriad o wella cyflwr denu a recriwtio.

## Argymhellion

Tabl 1: Argymhellion ar gyfer helpu'r argyfwng denu a recriwtio mewn lleoliadau BCGP

Argymhellion ar gyfer Gofalwn Cymru	Amserlen
Ehangu gweithgareddau hysbysebu ac ymgyrchu.	Yn syth
Datblygu mwy o adnoddau ar gyfer y wefan.	Yn syth
Datblygu hunaniaeth gliriach.	Yn syth
Cefnogi safleoedd BCGP i broffesiynoli o'r tu mewn.	Tymor canolig
Parhau i ddefnyddio a chefnogi'r system leol.	Tymor canolig
Cefnogi'r sector i ddeall pwysigrwydd amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant.	Tymor hir
Argymhellion i gyflogwyr a lleoliadau	Amserlen
Cymryd rhan mewn trafodaethau lleol a chenedlaethol.	Yn syth
Chwilio am arian lleol a chenedlaethol.	Tymor canolig
Addasu arferion denu a recriwtio	Tymor canolig

## Newidiadau system sydd eu hangen

## Amserlen

Cynnydd cyflog ar draws y sector.

**Yn syth**

Buddsoddiad cyfalaf mwy hirdymor yn Gofalwn Cymru.

**Yn syth**

Ailgyngllunio systemau budd-daliadau.

**Tymor canolig**

Mwy o ymrwymiad i gyd-gynhyrchu polisïau a dulliau.

**Tymor canolig**

Cydweithio aml-sector i ddatblygu cyflenwad o weithwyr yn y dyfodol.

**Tymor hir**

## Deall cyd-destun BCGP

Mae recriwtio staff newydd a chadw gweithwyr presennol yn her ar draws lleoliadau BCGP yng Nghymru. Amcangyfrifir bod tua 1,000 o swyddi gwag<sup>1</sup>.

Yn 2022, gwahoddodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yr holl Glybiau Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol yng Nghymru i ymateb i arolwg. Cafwyd ymateb gan 273 o leoliadau i gyd, sef 33% o'r holl leoliadau yng Nghymru. Dangosodd yr arolwg fod 80% o'r ymatebwyr o'r farn bod recriwtio a chadw staff yn her allweddol<sup>2</sup>.

Ymhellach, yn ôl CWLWM yn 2021, bu'n rhaid i 54% o leoliadau BCGP gael staff newydd, ac roedd 77% o'r gwasanaethau hyn yn gweld bod recriwtio'n heriol<sup>3</sup>.

Mae ymrwymadau polisi cenedlaethol i ehangu mynediad at ofal plant, yn enwedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar, yn ychwanegu pwysau at yr heriau recriwtio presennol.

## Recriwtio a denu at BCGP: y sefyllfa bresennol

Mae cyflogwyr BCGP yn wynebu cyfres o heriau a rhwystrau cymhleth wrth ddenu a recriwtio staff. Mae Ffigur 1 yn amlygu'r heriau allweddol a wynebir.



Ffigur 1: Heriau denu a recriwtio allweddol mewn lleoliadau BCGP

Er bod problemau wrth ddenu, mae craidd yr heriau'n codi yn y cyfnod recriwtio. Ar draws yr ymgysylltu â chyflogwyr, dywedodd llawer fod digon o ymgeiswyr parod, ond bod cyfyngiadau a gymhwysir gan rymoedd rheoleiddio yn golygu nad yw'r mwyafrif yn gymwys i weithio. Mewn achosion eraill efallai na fydd gweithwyr presennol yn cael eu cymell i ymgymryd â hyfforddiant a chymwysterau ychwanegol.

Mae'n debyg bod y problemau hefyd wedi dwysáu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda llawer o gyflogwyr yn sicr bod yr heriau'n waeth nawr nag y buont erioed. Mae'n ymddangos bod hyn yn gyfuniad o ffactorau allanol fel COVID-19, Brexit a'r argyfwng costau byw.

Amlygir codi tâl fel y strategaeth bwysicaf i wella atyniad.

## Rôl a gwerth Gofalwn Cymru

Ar y cyfan, mae Gofalwn Cymru yn cael ei ystyried yn rym cadarnhaol i BCGP yng Nghymru.

Mae ymatebwyr yn credu ei fod yn blatfform defnyddiol, gan werthfawrogi ei adnoddau a'i ymgyrchoedd. Mae ymatebwyr hefyd yn mwynhau cael eu cynnwys fel rhan o'r sector ehangach. Mae hyn yn bwysig o ystyried bod BCGP yn aml yn cael llai o sylw na gofal cymdeithasol.

Mae Gofalwn Cymru wedi dod â gwerth sylweddol i BCGP o ran darparu cymorth ac adnoddau i gyflogwyr ac ymgeiswyr. Yn benodol, mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi ei fuddsoddiad mewn allgymorth ac ymgysylltu, ac mewn hybu ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau'r cyhoedd am BCGP.

## Yr adroddiad hwn

Cynhaliwyd yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn gan Urban Foresight fel rhan o brosiect mwy o faint yn archwilio'r sector gofal cymdeithasol a gofal plant cyfan – sef gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol a BCGP – yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n canolbwyntio ar achos BCGP.

Roedd y dulliau yn cynnwys adolygiadau desg o bolisiau BCGP, a llenyddiaeth a adolygydd gan gymheiriaid a llenyddiaeth lwyd yn ymwneud â denu a recriwtio gweithwyr mewn safleoedd BCGP a rhai cysylltiedig. Trwy gyfweiliadau ar-lein a fforymau ar-lein, ymgysylltwyd â 24 o gyflogwyr BCGP a 13 unigolyn sy'n gweithio mewn rolau ategol i ddeall yr heriau cyfredol. Cafodd y canfyddiadau eu bwydo'n ôl trwy weithdai gwirio synnwyr.

Mae'r prif adroddiad – ***Deall denu a recriwtio yn sector gofal cymdeithasol a gofal plant Cymru a rôl Gofalwn Cymru*** – yn rhoi manylion cyd-destunol ychwanegol am y sector ac am wersi y gellir eu dysgu o fannau eraill. O ystyried bod gofal cymdeithasol wedi'i gynnwys, mae hefyd yn darparu rhestr fwy eang o argymhellion ar gyfer y sector ehangach.

Mae adroddiad ychwanegol hefyd wedi'i fwriadu i gyd-fynd â'r ymchwil hwn. Mae ***Deall ymddygiadau ceisio am swydd: mewnwelediadau ar gyfer gofal cymdeithasol*** yn crynhoi'r dystiolaeth o'r hyn sy'n hysbys am ymddygiad ceisio am swydd.

Strwythurwyd yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- 1 Cyflwyniad** – Yn rhoi trosolwg o'r argyfwng denu a recriwtio, cyflwyniad i Gofalwn Cymru, a throsolwg o'r dulliau a'r ymagwedd a gymerwyd.
  - 2 Deall y cyd-destun** – Yn darparu gwybodaeth am gyd-destun BCGP, rhanddeiliaid allweddol, a pholisïau perthnasol.
  - 3 Heriau denu a recriwtio presennol yng Nghymru** – Yn tynnu ar ganfyddiadau'r ymgysylltiad ansoddol â rhanddeiliaid i archwilio cryfderau a heriau a wynebwr wrth ddenu a recriwtio gweithwyr BCGP.
  - 4 Rôl a gwerth Gofalwn Cymru** – Adolygu effaith Gofalwn Cymru, gan gynnwys ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o'r rhaglen yn gyffredinol a gweithgareddau penodol.
  - 5 Argymhellion** – Yn rhestru ac yn rhoi manylion am yr argymhellion a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwil hon.
  - 6 Casgliad** – Yn crynhoi'r adroddiad ac yn rhoi myfyrdodau ar ei oblygiadau ehangach.
-



# Cynnwys

	<b>Crynodeb gweithredol</b>	<b>1</b>
<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>7</b>
<b>2</b>	<b>Cyd-destun BCGP Cymru</b>	<b>10</b>
	Diffinio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant	11
	Actorion a rhanddeiliaid allweddol	13
	Y cyd-destun polisi	14
	Crynodeb o'r adran	15
<b>3</b>	<b>Recriwtio a denu i'r maes BCGP: y sefyllfa bresennol yng Nghymru</b>	<b>16</b>
	Dysgu oddi wrth ymgyrchoedd recriwtio mewn mannau eraill	19
	Cryfderau a heriau denu	19
	Recriwtio	23
	Gwahaniaethau o fewn y blynyddoedd cynnar a gofal plant	27
	Bygythiadau'r dyfodol	30
	Y trilema gofal	31
	Crynodeb o'r adran	34
<b>4</b>	<b>Rôl a gwerth Gofalwn Cymru</b>	<b>35</b>
	Canfyddiadau o Gofalwn Cymru	36
	Gweithgareddau BCGP Gofalwn Cymru	37
	Crynodeb o'r adran	40
<b>5</b>	<b>Argymhellion</b>	<b>41</b>
	Beth all Gofalwn Cymru ei wneud?	42
	Beth all lleoliadau BCGP ei wneud?	47
	Pa newidiadau i'r system sydd eu hangen?	49
<b>6</b>	<b>Casgliad</b>	<b>53</b>
	<b>Atodiadau</b>	<b>55</b>
	<b>Cyfeiriadau</b>	<b>61</b>

---

# 1

## Cyflwyniad



---

# Cyflwyniad

Ledled Cymru, bu lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant (BCGP) yn wynebu heriau o ran denu a recriwtio gweithwyr. Amcangyfrifir bod tua 1,000 o swyddi BCGP gwag yn 2021.

## Yr her sy'n wynebu BCGP

O ystyried yr heriau parhaus, ym mis Mawrth 2019, lansiodd Gofal Cymdeithasol Cymru Gofalwn Cymru i hybu proffil y gweithlu gofal a gwella atyniad cyflogaeth. Mae Gofalwn Cymru yn cynnal ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol, yn datblygu adnoddau ar-lein, ac yn darparu cymorth i geiswyr gwaith a chyflogwyr<sup>4</sup>.

Yn ôl CWLWM, yn 2021, roedd 60% o leoliadau BCGP wedi recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf, tra bod 12% wedi ceisio ond wedi methu recriwtio. O'r rhai a oedd yn recriwtio, roedd 77% yn ei chael hi'n heriol<sup>5</sup>.

Adroddodd arolwg gweithlu cenedlaethol Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru (NDMA) yn 2019 ymhellach fod mwy nag 85% o'r ymatebwyr wedi cael o leiaf un aelod o staff yn gadael yn 2018-19<sup>6</sup>. Amcangyfrifa NDMA ymhellach fod 5.5% o swyddi BCGP yn wag ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 1,000 o swyddi gwag, yn seiliedig ar amcangyfrif Llywodraeth Cymru o 15,000 o weithwyr gofal plant<sup>7</sup>.

## Yr adroddiad hwn

Comisiynwyd Urban Foresight gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal adolygiad o Gofalwn Cymru a'i rôl mewn denu a recriwtio yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant gan gynnwys gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, a gwaith cymdeithasol.

Paratowyd yr adroddiad hwn gyda ffocws arbennig ar y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'n darparu dealltwriaeth o'r heriau denu a recriwtio sy'n wynebu lleoliadau BCGP, yn cyflwyno strategaethau y mae cyflogwyr yn eu mabwysiadu i fynd i'r afael â heriau o'r fath, ac yn gwerthuso effaith Gofalwn Cymru. Yna, mae'r adroddiad yn cyflwyno cyfres o argymhellion wedi'u hanelu at Gofalwn Cymru a lleoliadau BCGP.

Mae'r prif adroddiad – ***Deall denu a recriwtio yn sector gofal cymdeithasol a gofal plant Cymru a rôl Gofalwn Cymru*** – yn rhoi manylion cyd-destunol ychwanegol am y sector ac am wersi y gellir eu dysgu o fannau eraill. O ystyried bod gofal cymdeithasol wedi'i gynnwys, mae hefyd yn darparu rhestr fwy eang o argymhellion ar gyfer y sector ehangach.

Mae adroddiad ychwanegol hefyd yn cyd-fynd â'r ymchwil hon – ***Deall ymddygiadau ceisio am swydd: mewnwleidiadau ar gyfer gofal cymdeithasol***. Cynigia hwn grynodedb o'r dystiolaeth o'r hyn sy'n hysbys am ymddygiad ceisio am swydd.

## **Amcanion a dull y prosiect**

**Mae dau nod cyffredinol wedi ysgogi'r prosiect:**

- 1.** Beth yw'r dirwedd recriwtio, denu a chadw bresennol mewn lleoliadau BCGP yng Nghymru a beth yw rôl Gofalwn Cymru yn y dirwedd hon?
- 2.** Sut y gallai Gofalwn Cymru ddeall a chefnogi recriwtio, denu a chadw yn y maes BCGP yn well o hyn ymlaen?

Casglwyd data cychwynnol ac eilaidd rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Chwefror 2023. Mae hyn yn cynnwys:

- Adolygiadau desg i ddeall cyd-destun polisi BCGP Cymru a llenyddiaeth berthnasol sy'n ymwneud â heriau ac atebion denu a recriwtio mewn manau eraill.
- Cyfweiliadau ar-lein a/neu drafodaethau mewn fforymau ar-lein gyda 24 o gyflogwyr BCGP.
- Cyfweiliadau ar-lein â 13 o unigolion sy'n cynrychioli pum sefydliad sy'n ymwneud â rolau ategol yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn Gofalwn Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, sefydliadau eraill sy'n cefnogi gweithluoedd gofal, a chysylltwyr rhanbarthol.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio 'rhanddeiliaid' i gyfeirio at bawb a gafodd gyfweiliad. Lle mae rhywbeth yn berthnasol i gyflogwyr neu'r rhai mewn rolau ategol yn unig, gwneir hyn yn glir.

Cynhaliwyd dadansoddiad SWOT i ddeall y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau sy'n wynebu lleoliadau BCGP. Cyflwynwyd canfyddiadau mewn dau weithdy gwirio synnwyr. Gweler Atodiad I am fethodoleg fanwl.

---

# 2

## Cyd-destun BCGP Cymru



---

# Cyd-destun BCGP Cymru

Pwysig yw deall y cyd-destun y mae BCGP yn eistedd ynddo i ddeall heriau'r gweithlu. Mae'r adran hon yn amlinellu elfennau allweddol system BCGP Cymru, a'r cyd-destun polisi.

Mae'r prif adroddiad *Deall atyniad a recriwtio yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru a rôl Gofalwn Cymru* yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y maes cyflogaeth yng Nghymru.

## Prif negeseuon

- 1 Mae'r maes BCGP yn gymhleth, gan gynnwys amrywiaeth o fathau o leoliadau ac amrywiaeth o actorion.
- 2 Mae ymrwymadau polisi cenedlaethol i ehangu mynediad at ofal plant, yn enwedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar, yn ychwanegu pwysau at yr heriau recriwtio presennol.

## Diffinio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant

Yng Nghymru, mae BCGP yn cyfeirio at wasanaethau a ddarperir i blant 0-12 oed sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad y tu allan i addysg ffurfiol<sup>8</sup> (er y dylid nodi bod llawer o wasanaethau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau addysg, fel clybiau ar ôl ysgol). Mae amrywiaeth o fathau o leoliad sy'n gweithredu o dan ymbarél BCGP.

Mae BCGP yn cynnwys gofal dydd a meithrin i blant cyn oed ysgol, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau, yn ogystal â gwasanaethau gwarchod plant. Ceir tua 6,073 o wasanaethau BCGP cofrestredig yng Nghymru<sup>9</sup>. Mae diffiniadau o'r gwahanol fathau o leoliadau BCGP yn cael eu crynhoi yn Atodiad III.


Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio'r blynyddoedd cynnar fel 0 i 7 oed a gofal plant i gynnwys plant hyd at 12 oed. Mae datblygiad plant yn ystod y blynyddoedd hyn yn hynod o bwysig. Dangoswyd bod gwneud buddsoddiadau cynnar yn cael effaith gadarnhaol ar lwyddiant plant yn y dyfodol. Mae gofal plant yn ffordd allweddol o gefnogi dysgu a datblygu yn y cyfnod hwn<sup>10</sup>.

Mae gwahanol fathau o leoliadau a gwasanaethau BCGP:

- Gwarchod plant yw'r weithred o dalu rhywun i ofalu am blentyn o dan 12 oed ar eiddo domestig, e.e. eu cartref.
- Gofal dydd yw gofal plant a ddarperir ar safleoedd heblaw rhai domestig am fwy na dwy awr mewn unrhyw un diwrnod. Mae grwpiau chwarae, meithrinfeydd, meithrinfeydd dydd, a darpariaethau mynediad agored, fel canolfannau chwarae meddal, wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau gofal dydd<sup>11</sup>.
- Mae clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau yn cefnogi plant hyd at 12 oed mewn lleoliadau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau.

Yn ogystal, er nad yw gwaith chwarae – y weithred o ddarparu lleoedd a chyfleoedd i blant ac ieuenctid chwarae'n rhydd ac yn hyderus<sup>12</sup> – wedi'i gynnwys o fewn BCGP, yn ymarferol, mae llawer o orgyffwrdd. Mae cyflogwyr gwaith chwarae yn cymryd rhan mewn fforymau a thrafodaethau BCGP, ac felly mae rhai o'u hymatebion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

### Nifer y gwasanaethau cofrestredig fesul lleoliad BCGP



Ffigur 2: Nifer y gwasanaethau cofrestredig fesul lleoliad BCGP

### Gwasanaethau cofrestredig ac anghofrestredig

Gall lleoliadau fod naill ai wedi'u cofrestru neu heb eu cofrestru. Arolygir lleoliadau cofrestredig i sicrhau eu diogelwch a'u hansawdd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)<sup>13</sup>, ac mae'n rhaid iddynt fodloni'r safonau gofynnol. Mae 1,936 o wasanaethau gofal dydd plant cofrestredig a 4,137 o wasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig yng Nghymru<sup>14</sup>.

Dylai gwasanaethau cofrestredig gynnal cwota neu gymhareb o staff cymwys yn erbyn staff sydd heb gymhwys. Rhaid bod o leiaf 80% o staff yn meddu ar gymhwyster Lefel 2 o dan y safonau gofynnol cenedlaethol (NMS). Mae cymhwyster Lefel 2 yn caniatáu i weithwyr weithio heb oruchwyliaeth mewn lleoliadau gofal dydd llawn neu ofal sesiynol. O leiaf, rhaid i hanner y staff cymwys Lefel 2 feddu ar gymhwyster Lefel 3 hefyd<sup>15</sup>. Gall gweithwyr Lefel 3 hefyd weithio heb oruchwyliaeth mewn lleoliadau Dechrau'n Deg, a chyda dwy flynedd o brofiad maent yn gymwys i reoli lleoliadau sesiynol neu ofal dydd llawn<sup>16</sup>.

Gall gwasanaethau na allant fodloni'r lefelau hyn weithredu o dan Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, y cyfeirir ato'n aml fel y 'Gorchymyn Eithriadau'. Mae hwn yn nodi wyth o amgylchiadau, sy'n ymwneud â'r math o safle a'r cyfnod o ddarpariaeth gofal, sy'n esgusodi lleoliadau rhag y gofynion cymhwyso<sup>17</sup>.

## Actorion a rhanddeiliaid allweddol

**Mae nifer o sefydliadau â rolau canolog ym maes BCGP Cymru.**

Mae gan ddau sefydliad allweddol gyfrifoldeb dros reoleiddio lleoliadau BCGP:

- **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** – sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig<sup>18</sup>.
- **Estyn** – sy'n arolygu lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir sy'n cynnig y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Mae arolygiadau ar y cyd yn cael eu treialu gan AGC ac Estyn<sup>19</sup>.

Mae'r sefydliadau canlynol hefyd yn chwarae rhan hanfodol ym maes presennol BCGP Cymru:

- **Gofal Cymdeithasol Cymru** – sy'n gweithredu fel partner cyflawni gweithredol ar gyfer BCGP mewn meysydd fel datblygu cymwysterau ac adnoddau i gefnogi cyflogwyr, ac sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi.
- **CWLWM** – sy'n uno pump o brif ddarparwyr gofal plant Cymru i ddarparu gwasanaeth integredig dwyieithog a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfydd Dydd (NDNA Cymru), a PACEY Cymru<sup>20</sup>.
- **Awdurdodau lleol (ALLau)** – mae'n ofynnol i ALLau sicrhau bod digon o ofal plant yn eu hardal drwy ddarparu datblygiad gweithlu a chymorth i leoliadau gofal plant lleol<sup>21</sup>.
- **Rhwydwaith datblygu gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant** – Fforwm i BCGP (0-8 oed) yng Nghymru drafod ffactorau strategol yn ymwneud â'r gweithlu megis recriwtio, cadw staff, hyfforddi, a datblygu cymwysterau. Cynhelir y cyfarfodydd hyn deirgwaith y flwyddyn a Gofal Cymdeithasol Cymru yw'r ysgrifenyddiaeth<sup>22</sup>.



## Y cyd-destun polisi

**Ar draws y maes polisi, mae'r ymgyrch i wella hygyrchedd a fforddiadwyedd gofal plant ac ymrwymiad i wella ansawdd yn cynyddu'r galw am weithwyr BCGP.**

Nodir y blynyddoedd cynnar a gofal plant fel meysydd blaenoriaeth ym mholisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru fel 'Ffyniant i Bawb'<sup>23</sup> a 'Symud Cymru Ymlaen'<sup>24</sup> a rhaglenni fel Dechrau'n Deg. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyfnod plentyndod yn sylfaenol i gyfleoedd diweddarach mewn bywyd, ac yn dangos ei hymrwymiad i gefnogi'r cyfnod hwn drwy gynorthwyo rhieni a datblygu systemau cryfion y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

- **Ffyniant i Bawb** – Strategaeth genedlaethol sy'n ceisio sicrhau Cymru "sy'n ffyniannus a diogel, sy'n iach ac egniol, sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig" yn y tymor hir. Mae'r strategaeth yn nodi pum maes blaenoriaeth gan gynnwys tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, sgiliau a chyflogadwyedd, a'r blynyddoedd cynnar. Mae'r strategaeth yn cydnabod effaith profiadau plentyndod wrth lunio canlyniadau bywyd yn y dyfodol ac fe'i hystyrir yn faes allweddol o botensial ar gyfer gwella yn y dyfodol<sup>25</sup>.
- **Symud Cymru Ymlaen** – Ei nod yw creu mwy o swyddi a swyddi gwell, ac economi gryfach a thecach i wella gwasanaethau cyhoeddus. Y weledigaeth yn y pen draw yw "Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy". Roedd y strategaeth ar waith rhwng 2016 a 2021, a'i themâu allweddol yn cynnwys ffyniant a diogelwch, poblogaeth iach ac egniol, uchelgais a dysgu, ac undod a chysylltiad. Cafodd yr angen i gefnogi plant a phobl ifanc ei gydnabod yn y thema iechyd a gweithgaredd, a'r thema uchelgais a dysgu. Ystyrir bod profiadau yn y blynyddoedd cynnar o ran gofal plant ac addysg yn hanfodol i lunio ymddygiadau iach, cefnogi dysgu, a chreu cyfleoedd bywyd cadarnhao<sup>26</sup>. Amlygir y themâu hyn hefyd yn 10 amcan Llesiant Llywodraeth Cymru<sup>27</sup>.
- **Dechrau'n Deg** – Rhaglen Llywodraeth Cymru sydd wedi'i chynllunio i fod o fudd i deuluoedd â phlant dan bedair oed sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<sup>28</sup>. Nod y rhaglen yw darparu gofal plant rhan-amser o safon i blant 2-3 oed. Cynigia ddwy awr a hanner y dydd am bum diwrnod yr wythnos am gyfanswm o 39 wythnos. Mae'r ddarpariaeth hefyd ar gael i'r teulu yn ystod gwyliau'r ysgol gan gynnwys o leiaf pum sesiwn<sup>29</sup>.

Rhestrir polisiau a chynlluniau allweddol eraill yn Atodiad IV. Ar draws y dogfennau hyn, cydnabyddir bod BCGP yn flaenoriaeth genedlaethol allweddol. Mae pwyslais ar bwysigrwydd denu recriwtiaid cymwys o ansawdd uchel a chodi safonau a sgiliau, yn ogystal â nodi'r angen i gynyddu hygyrchedd a fforddiadwyedd lleoliadau blynyddoedd cynnar i rieni a gwarcheidwaid. Mae ymrwymadau clir hefyd i sicrhau cydraddoldeb gofal a chyfleoedd ar draws safleoedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith.



## Crynodeb o'r adran

Mae maes BCGP Cymru yn gymhleth, gydag amrywiaeth o fathau o leoliadau a gwasanaethau yn ogystal ag amrywiaeth o actorion a rhanddeiliaid. Mae uchelgeisiau gwleidyddol i ehangu mynediad i'r blynyddoedd cynnar a gofal plant a gwella ansawdd, yn ogystal â symudiadau mewnol i godi safonau a gofynion cymwysterau gofynnol, yn rhoi mwy o bwysau ar leoliadau BCGP. Cymhlethir hyn ymhellach gan y ffaith bod lleoliadau BCGP eisoes yn wynebu heriau wrth recriwtio. Yn yr adran ganlynol ceir tystiolaeth am yr heriau presennol sy'n wynebu'r maes BCGP yng Nghymru.

---

# 3

## **Recriwtio a denu i'r maes BCGP: y sefyllfa bresennol yng Nghymru**

---

# Recriwtio a denu i'r maes BCGP: y sefyllfa bresennol yng Nghymru

Mae'r cyfuniad o ffactorau allanol – COVID-19, Brexit a'r argyfwng costau byw – yn ogystal ag effeithiau rheoleiddio, fel cwrdd â chwotâu staff cymwys, yn golygu bod materion denu a recriwtio ar gyfer llawer o leoliadau BCGP yn waeth nawr nag y buont erioed o'r blaen. Mae'r adran hon yn rhoi mewnwelediadau manwl i'r heriau sy'n wynebu lleoliadau BCGP.

## Prif negeseuon

- 1 Mae'n ymddangos bod lleoliadau BCGP yn wynebu'r rhan fwyaf o broblemau wrth recriwtio yn hytrach na denu gweithwyr. Dywedodd llawer o gyflogwyr fod digon o ymgeiswyr parod ond bod cyfyngiadau a gymhwysir gan rymoedd rheoleiddio yn golygu nad yw'r mwyafrif yn gymwys i weithio.
- 2 Mae heriau denu yn cynnwys cyflog, cynnydd yn y galw ac ymwybyddiaeth y cyhoedd.
- 3 Mae heriau recriwtio yn cynnwys ymgeiswyr anghymwys a diddiddordeb, amrywiaeth, cwotâu, cymwysterau a phwysau allanol.
- 4 Wrth i broffesiynoli a rheoleiddio fynd yn eu blaenau, cafwyd canlyniadau anfwriadol o ran denu, recriwtio a chadw staff. Cynigir y 'trilema gofal' a awgrymir fel arf ar gyfer dadansoddi'r heriau hyn yn gliriach.

Yn gyntaf, mae'r adran hon yn amlinellu dysgu allweddol o sectorau a lleoliadau eraill. Yna mae'n tynnu ar ganfyddiadau'r ymgysylltu â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â:

- Chryfderau a heriau denu.
- Heriau recriwtio
- Amrywiadau rhwng gwahanol leoliadau.
- Bygythiadau yn y dyfodol.

Mae'r adran olaf yn cyflwyno model newydd i ddeall heriau denu a recriwtio yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant – y trilema gofal. Amlyga'r trilema gofal sut mae gwella atyniad heb leihau statws y sector nac ansawdd y gofal, ac mae'n profi y dylai cynyddu cyflog fod yn flaenoriaeth allweddol.



Ffigur 3: Yr heriau denu (arlliw golau) a'r heriau recriwtio (arlliw tywyll).

## Dysgu oddi wrth ymgyrchoedd recriwtio mewn mannau eraill

Mae systemau gofal a lleoliadau BCGP eraill, yn y DU ac yn rhyngwladol, yn cael problemau tebyg o ran denu a recriwtio staff. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau arloesol i oresgyn yr her hon. Gall dysgu gan rywle arall fod yn ddefnyddiol i fyfrio ar ehangder y strategaethau sydd ar gael.

Mae'r prif adroddiad yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos sy'n crynhoi ymyriadau a strategaethau a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â denu a recriwtio mewn mannau eraill. At ei gilydd, mae gwella cyflog a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â lefelau proffesiynoli, diwygio'r system, a mabwysiadu dull gweithredu hirdymor yn bwysig ar gyfer llwyddiant. Mae hefyd yn ddefnyddiol dysgu o'r tu hwnt i'r sector. Yma, mae datblygu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol arloesol ac wedi'u targedu a gwella ac arddangos buddion yn allweddol.

## Cryfderau a heriau denu

Ar draws yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, nodwyd bod lleoliadau BCGP fel petaent yn ddeniadol i grwpiau penodol o bobl, yn enwedig menywod. Serch hynny, ceir heriau – diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd, cynnydd yn y galw, a denu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol.

Nododd y rhan fwyaf o rhanddeiliaid fod lefel uchel o ddiddordeb gan fenywod o bob oed i ymuno â lleoliadau BCGP a'i bod fel arfer yn hawdd dod o hyd i ymgeiswyr parod. Yn ogystal, trafodwyd bod hyblygrwydd y rôl yn fantais ac yn her wrth ddenu.

*“Mae rhai pobl wir eisiau ymuno â'r sector. Mae'n ddeniadol i bob oed – merched ysgol a menywod yn eu 50au.”*

*“Mae'r grŵp oedran 50 a mwy yn tueddu i fod â phrofiad gofalu ac efallai y bydd y gwaith yn fwy gwerth chweil na gwaith ffatri a gwaith tebyg.”*

*“Yr unig beth nad yw'n peri trafferth i ni yw prentisiaid – maen nhw'n dod yn eu lluoedd. Rhai sy'n gadael yr ysgol ydynt yn bennaf.”*

*“Mae rhai pobl wir yn hoffi'r hyblygrwydd, ac mae'n ei gwneud yn fwy deniadol iddyn nhw, ond nid yw'n gweithio i eraill.”*

## Ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwleidyddol

Cred y rhanddeiliaid fod diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwleidyddol am BCGP yn her wrth ddenu. Amlygwyd diffyg dealltwriaeth am beth yw BCGP, ymhle mae'n eistedd o ran gwasanaethau a sectorau eraill, pa blant y mae'n eu cefnogi, pam mae'r gwaith yn bwysig, a pham y gallai'r gwaith fod yn ddiddorol neu'n bersonol foddhaus i gyd ymhlith yr heriau.

*"Mae canfyddiadau cyhoeddus am ofal plant yn wael."*

*"Mae yna ddiffyg dealltwriaeth o'r agweddau cadarnhaol ar weithio yn y maes BCGP."*

*"Prin yw'r ddealltwriaeth wleidyddol o ofal plant – mae pobl yn meddwl y daw i ben ar ôl 4 blynedd, felly mae'r sylw yn bennaf ar leoliadau meithrin."*

*"Mae ansicrwydd ynghylch ai iechyd neu addysg yw BCGP."*

*"Y canfyddiad gan ariannwr grant mawr iawn yw nad oes angen gofal plant y tu allan i'r ysgol mwyach."*

Nodwyd hefyd fod diffyg ymwybyddiaeth am werth gwasanaethau cofrestredig o'u cymharu ag opsiynau gofal plant sy'n gweithredu o dan Orchmynion Eithriadau. Mae hyn yn her o ran denu pobl sydd am ddefnyddio gwasanaethau BCGP yn hytrach na gweithwyr, ond sy'n dangos y diffyg dealltwriaeth o bwysigrwydd y gwaith.

*"Nid yw rhieni yn deall gwir werth gwaith chwarae – nid oedd 30% o'n harolwg rhieni yn gwybod y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau cofrestredig ac anghofrestredig."*

## Cyflog isel

Codwyd cyflog isel fel problem allweddol. Ar gyfer gweithwyr lefel mynediad, mae'r cyflog yn isel o'i gymharu â sectorau eraill, ac efallai y bydd materion eraill yn cael eu hystyried yn fwy taer. Ond, ar gyfer staff mwy cymwys, ystyrir bod y cyflog yn isel o ystyried y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith. Mae Tabl 3 yn amlygu'r ddau fater cyflog hyn.

Tabl 2: Prif faterion cyflog

Cyflog yn rhwystr rhag denu gweithwyr lefel mynediad	Cyflog yn rhwystr rhag denu gweithwyr cymwys
<i>"Mae'r cyflog byw cenedlaethol ar draws sectorau tebyg yn golygu nad yw BCGP yn fwy deniadol na manwerthu."</i>	<i>"Os yw pobl yn cael eu lefel 3, 4, neu 5, yna ble mae'r gydnabyddiaeth ariannol?"</i>
<i>"Mae'n talu llai nag opsiynau manwerthu, weithiau £3 i £4 [yr awr] yn llai."</i>	<i>"Nid yw cymwysterau Lefel 5 yn addas i'r rhan fwyaf o weithwyr, gan nad oes gwobr ariannol."</i>
<i>"Mae pobl Lefel 3 yn gadael am waith â chyflog gwell ym maes iechyd ac addysg."</i>	<i>"Mae angen rôl oruchwylio ar bobl Lefel 3 sy'n wrth-reddfol; caiff pobl eu cymhwyster Lefel 3 ond nid oes angen iddynt oruchwylio ac nid ydynt yn cael mwy o gyflog."</i>
<i>"Mae'r isafswm cyflog yn codi, mae hynny'n wych ond mae gweithwyr [BCGP] yn gallu bod ar yr un arian neu lai o arian â phobl mewn manwerthu."</i>	<i>"Nid oes gan y maes [BCGP] raddfeydd cyflog sydd wedi eu cytuno'n genedlaethol ar gyfer lefelau gwahanol o gymhwyster fel yr hyn sy'n digwydd mewn gwaith ieuencid – mae'n wahanol rhwng cwmnïau, rhwng awdurdodau lleol – mae yna ddiffyg cysondeb."</i>

## Cynnydd yn y galw

Mae cyflogwyr yn pryderu am yr angen cynyddol i ddenu mwy o staff i gyfateb â'r galw a grëwyd gan ymyriadau polisi sydd â'r nod o gefnogi rhieni. Mae hyn eisoes yn dechrau effeithio ar leoliadau, ac maen nhw'n credu y bydd hyn yn tyfu fel problem yn y blynyddoedd i ddod.

*"4,000 o lefydd ychwanegol [ar gyfer Dechrau'n Deg]? O ble mae'r staff yn dod, yn enwedig ar gyfer darpariaeth Gymraeg?"*



## Denu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol

Mae sicrhau bod gweithluoedd BCGP yn adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas yn bwysig er mwyn rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn. Mae rhai lleoliadau wrthi'n ceisio recriwtio gweithluoedd mwy amrywiol, yn enwedig siaradwyr Cymraeg, ond yn wynebu heriau amrywiol wrth wneud hynny.

- **Siaradwyr Cymraeg** – Mae cyflogwyr yn ymdrechu o ddifrif i ddenu a recriwtio siaradwyr Cymraeg, ond yn canfod mai ychydig o ymgeiswyr sydd, os o gwbl.

*“Mae clybiau Cymraeg yn ei chael hi'n arbennig o anodd dod o hyd i staff ac mae'n ychwanegu at eu baich recriwtio.”*

*“Mae'n ddigon anodd dod o hyd i staff sy'n siarad Saesneg, heb sôn am siaradwyr Cymraeg.”*

*“Dyw hanner y staff mewn lleoliadau Cymraeg ddim yn siarad Cymraeg.”*

*“Bu'n anoddach erioed recriwtio a chadw siaradwyr Cymraeg.”*

- **Gweithwyr hŷn** – Er bod cyflogwyr yn canfod bod gweithwyr hŷn yn cael eu denu at y gwaith, weithiau gall agweddau technegol a digidol ar y rôl atal ymgeiswyr hŷn rhag gwneud cais.

*“Mae pobl dros 50 oed yn cael trafferth gydag agweddau technegol a digidol y rôl, [fel defnyddio] iPads mewn meithrinfeydd a Zoom i gyfathrebu â rhieni.”*

- **Diffyg profiad gwaith myfyrwyr o golegau** – nododd rhanddeiliaid amrywiol hefyd ddiffyg myfyrwyr profiad gwaith fel her allweddol wrth ddenu.

*“Dyw colegau ddim yn anfon myfyrwyr i ofal dydd am brofiad gwaith, neu [os ydyn nhw] maen nhw'n cael pythefnos yn unig. Mae angen i feithrinfeydd ddefnyddio colegau yn fwy – y myfyrwyr yw'r gweithlu nesaf. Byddem yn hapus i'w cyflogi yn syth allan o'r coleg, ond nid ydym yn cael y ffrwd hon.”*

---

*“Os nad yw gweithwyr yn cynrychioli amrywiaeth cymru a mannau eraill, yna bydd rhai plant yn cael profiadau gwaeth.”*

---

## Recriwtio

Mae cyflogwyr BCGP yn nodi mai recriwtio yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu lleoliadau BCGP ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae heriau recriwtio allweddol yn cynnwys anawsterau wrth gwrdd â chwotâu staff cymwys a llywio cymwysterau, ochr yn ochr â delio ag ymgeiswyr anghymwys a diddiddordeb sy'n dihybyddu adnoddau. Mae pwysau allanol fel yr argyfwng costau byw yn ychwanegu at yr her ymhellach.

Yn 2022, gwahoddodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yr holl glybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol yng Nghymru i ymateb i arolwg. Ymatebodd 273 o leoliadau i gyd i hwn, sef 33% o'r holl leoliadau yng Nghymru. Dangosodd yr arolwg fod 80% o'r ymatebwyr o'r farn bod recriwtio a chadw staff yn her allweddol.

## Cwrdd â chwotâu staff cymwys

Mae anawsterau wrth ddenu gweithwyr cymwys yn arwain at heriau sylweddol o ran recriwtio gweithwyr i wasanaethau penodol. Dyma'r her fwyaf o bell ffordd a godwyd gan gyflogwyr BCGP.

I lawer o gyflogwyr, mae staff heb gymhwyso yn gymharol hawdd eu denu; y gwir her yw recriwtio staff sy'n bodloni'r gofynion cymhwyster angenrheidiol. Rhaid i gyflogwyr hefyd annog staff presennol i ennill cymwysterau, a all gymryd llawer o amser ac effeithio ymhellach ar eu gallu i gwrdd â chwotâu staff cymwys.

*“Mae'n anodd dod o hyd i ymgeiswyr sydd â chymwysterau addas.”*

Fel y dengys Tabl 3, pan fydd gwasanaethau'n cyrraedd eu cwota o staff heb gymhwyso, mae yna ganlyniadau amrywiol sydd â goblygiadau sylweddol ar gyfer recriwtio ac ansawdd gofal.

Tabl 3: Canlyniadau gorfod cwrdd â chwotâu staff cymwys

Canlyniad gorfod cwrdd â chwotâu staff cymwys	Tystiolaeth
Mae lleoliadau'n recriwtio unrhyw un sydd â'r cymwysterau gofynnol waeth beth yw eu pryderon am ansawdd	<p><i>"Mae llawer o feithrinfeydd wedi cyrraedd eu cwota o staff heb gymhwyso, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt dderbyn unrhyw un sydd â chymwysterau, waeth beth yw ansawdd y person."</i></p> <p><i>"Mae gan bobl y cymwysterau ond nid y rhinweddau ar gyfer y gwaith."</i></p> <p><i>"Mae yna gwestiynau am ansawdd myfyrwyr Lefel 3 sydd heb unrhyw brofiad neu sydd ag ychydig bach o brofiad. Efallai bod ganddyn nhw drwydded i ymarfer, ond mater arall yw gofyn p'un a ydyn nhw'n ddiogel i ymarfer."</i></p> <p><i>"Mae cymwysterau'n golygu gwrthod pobl gyda'r sgiliau cywir."</i></p> <p><i>"Roedd yn rhaid i ni ostwng disgwyliadau mewn cymwysterau o Lefel 3 i Lefel 2, nawr rydyn ni'n cyflogi prentis."</i></p>
Daw staff profiadol yn anghymwys	<p><i>"Mae'r newidiadau i gymwysterau yn golygu bod staff da, tymor hir yn cael eu hystyried yn anghymwys."</i></p> <p><i>"Dim ond staff cymwys ac anghymwys y mae AGC yn eu hadnabod – beth am y rhai sy'n hyfforddi?"</i></p>
Mae lleoliadau'n cael trafferth yn cael pobl yn lle staff cymwys ar lefelau uwch	<p><i>"Mae'n anodd iawn cael pobl newydd ar Lefel 3, yn enwedig tebyg am debyg, o ran profiad ac ansawdd."</i></p> <p><i>"Cymwysterau AGC o fis Medi – maen nhw'n dda mewn egwyddor, ond mae'n anodd cael staff cymwys newydd."</i></p> <p><i>"Mae'n cymryd amser hir i gael aelod o staff o ansawdd uchel."</i></p>
Mae lleoliadau'n colli neu'n mentro colli eu statws cofrestredig	<p><i>"Mae'r canllawiau newydd gan y Llywodraeth sy'n datgan na all myfyrwyr gwblhau eu hyfforddiant yn gynharach na hyd y cwrs wedi ychwanegu haen arall o oedi. Y rheswm yw mai dim ond dwsin o leoliadau mynediad agored cofrestredig sydd, mae pobl yn cael trafferth gyda biwrocratiaeth gyda chofrestru a chymwysterau, yn enwedig ar gyfer safleoedd cofrestredig tymhorol – wedi'u lleihau'n aruthrol. Mae'n cynyddu [nifer] y bylchau."</i></p> <p><i>"Mae llefydd yn cau neu'n lleihau gwasanaethau gan nad ydyn nhw'n gallu eu staffio'n briodol."</i></p>
Mae'r lleoliadau'n colli arian	<p><i>"Does dim digon o staff cymwys ac ni allwn gynnal cymarebau. Mae hyn yn rhwystro refeniw ac felly elw."</i></p>
Mae gofynion hyfforddiant yn ei gwneud hi'n anodd rheoli sifftiau	<p><i>"Allwn ni ddim cael pobl i weithio dydd Gwener – maen nhw wastad yn gofyn am amser i ffwrdd i wneud gwaith NVQ."</i></p> <p><i>"Treulir mwy o amser gan reolwyr yn cefnogi'r tîm gofal plant yn yr ystafelloedd ac yn llenwi bylchau staffio."</i></p> <p><i>"Mae'r gofyniad am 16 awr mewn lleoliad ar gyfer cymhwyster yn anodd pan fydd gwasanaethau'n cau."</i></p>

## Llywio cymwysterau

Dywed rhanddeiliaid ymhellach fod llywio'r cymwysterau yn anodd i gyflogwyr, darpar ymgeiswyr a'r gweithlu presennol. Amlyga Tabl 4 y gwahanol ffyrdd y mae hyn yn digwydd.

Tabl 4: Anawsterau a achosir gan gymwysterau

Anhawster a achosir gan gymwysterau	Tystiolaeth
<p><b>Deall pa gymwysterau sy'n addas</b></p> <p>Mae'n anodd i gyflogwyr, darpar ymgeiswyr a'r gweithlu presennol ddeall amrywiadau mewn mathau o gymwysterau a llwybrau i gymhwyso. Weithiau, gellir ystyried bod hyd yn oed y rhai sydd â graddau prifysgol yn anghymwys os nad oes ganddynt y lefel ofynnol o brofiad dan sylw.</p> <p>Fodd bynnag, dro arall, siaradodd cyflogwyr am gwrdd ag ymgeiswyr a oedd wedi dilyn cyrsiau ar-lein wedi'u cynnal gan ddarparwyr sy'n ymddangos yn anghyfreithlon.</p>	<p><i>"Gallwch gael gradd prifysgol ond os nad oedd yn cynnwys arsylwi, nid ydych yn gymwys."</i></p> <p><i>"Mae cael llawer o gymwysterau gwahanol yn ei gwneud hi'n fwy dryslyd."</i></p> <p><i>"Mae llawer o lefydd yn cymryd arian ar gyfer cyrsiau sydd ddim hyd yn oed yn cael eu cydnabod. Mae angen mwy o reoleiddio ar yr hyn y gallan nhw ei roi ar eu gwefannau – mae'n hysbyseb ffug."</i></p>
<p><b>Colli diddordeb</b></p> <p>Mae'r gofynion ar gyfer cymwysterau yn gwrthio ymgeiswyr sydd â diddordeb ac ymgeiswyr addas i hyfforddiant ychwanegol megis cyrsiau cam neu hyfforddiant sgiliau. Gall cyrsiau hir wneud i ddarpar ymgeiswyr gollu diddordeb a dod yn fwy tebygol o chwilio am opsiynau â chyflog gwell lle gallant weithio ar unwaith fel manwerthu.</p>	<p><i>"Mae llawer o bobl a fyddai'n dda, ond maen nhw'n colli'r lefel mynediad ac felly'n gwneud blwyddyn o hyfforddiant sgiliau ac yn colli diddordeb. Maen nhw'n aml yn mynd i'r sector manwerthu."</i></p> <p><i>"Lle mae'n rhaid i fyfyrwyr wneud cyrsiau cam, maen nhw'n fwy tebygol o gollu eu brwdfrydedd dros BCGP a gadael am sectorau eraill."</i></p>
<p><b>Costau a hyd yr hyfforddiant</b></p> <p>Nodwyd hefyd fod disgwyl i bobl dalu am hyfforddiant cyn cael eu recriwtio i rôl yn anymarferol i lawer, yn enwedig pan fydd hyfforddiant yn cymryd amser sylweddol.</p>	<p><i>"Y prif fater yw [gorfod gwneud] cymwysterau cyn dechrau rôl, achos nid yw hyfforddiant yn cael ei wobrwyo'n ariannol."</i></p> <p><i>"Gall cymwysterau gymryd amser hir – roedd yn arfer bod yn flwyddyn, nawr mae dros 18 mis."</i></p>
<p><b>Anawsterau wrth ddarparu oriau ar gyfer cymwysterau</b></p> <p>Nododd llawer o gyflogwyr hefyd anawsterau wrth ddarparu staff sy'n mynd trwy gymwysterau gyda'r 16 awr ofynnol o amser cyswllt sydd ei angen i gyflawni Lefel 2.</p>	<p><i>"Mae'r mater 16 awr yn golygu tynnu oriau oddi ar rai er mwyn cael eraill yn gymwys."</i></p>
<p><b>Ceir canfyddiadau bod cymwysterau'n dod yn anoddach</b></p> <p>Mae lleiafrif o gyflogwyr yn credu bod natur fwy heriol cymwysterau yn her.</p>	<p><i>"Mae'r NVQ newydd yn fwy heriol. Ni fu'n broblem erioed o'r blaen."</i></p>
<p><b>Diffyg cymhelliant i gymhwyso</b></p> <p>O ystyried natur llawer o leoliadau BCGP, mae gwaith rhan-amser yn safonol. Fodd bynnag, efallai na fydd gan rai grwpiau o weithwyr rhan-amser fel myfyrwyr yr awydd i ymgymryd â chymwysterau ar gyfer rolau dros dro. Mewn achosion eraill, nid yw staff presennol yn cael eu cymell i gymhwyso.</p>	<p><i>"Nid yw pobl sy'n ei wneud yn rhan-amser neu wrth orffen graddau eisiau bod yn gymwys"</i></p> <p><i>"I'r staff sydd heb gymhwyso, mae'r asesydd NVQ yn eu hannog i beidio – y gwaith, arholiadau, amser ... dydyn nhw ddim eisiau gwneud yr hyfforddiant"</i></p>

## Ymgeiswyr anghymwys a diddiddordeb

Dywedodd bron yr holl gyflogwr eu bod wedi gweld cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf mewn ceisiadau gan unigolion sy'n anghymwys, yn anaddas, neu mewn rhai achosion, heb ddiddordeb yn y rolau. Mae hyn yn rhoi straen ychwanegol ar adnoddau sydd eisoes dan bwysau wrth i gyflogwyr hidlo trwy geisiadau.

*“Rydyn ni wedi defnyddio peiriannau chwilio am swyddi lleol a chyfryngau cymdeithasol. Ond fe welwn, er ein bod yn cael ymatebion, fod 80% yn anaddas a’r 15% arall yn methu ag ymddangos ar gyfer cyfweiliadau, sy’n gadael 5% sy’n ymddangos.*

*“Rydyn ni’n cael cyfradd ymateb isel gan bobl gymwys o hysbysebion swyddi [ar-lein].*

*“Nid yw pobl yn dod i’r cyfweiliadau. Mae’n wastraff amser ac adnoddau.”*

## Ffactorau allanol

Mae yna hefyd gyfres o ffactorau allanol sy’n cymhlethu gallu lleoliadau BCGP i recriwtio a chadw eu staff. Amrywia’r rhain o faterion trafndiaeth, cymhlethdodau yn y system fudd-daliadau, effaith COVID-19 a’r argyfwng costau byw parhaus.

- **Materion trafndiaeth** – O ystyried bod llawer o’r gweithlu presennol a’r darpar weithlu yn ifanc ac yn cael cyflog isel, nid yw’n bendant bod ceir ar gael iddynt. Mewn ardaloedd gwledig, mae diffyg opsiynau trafndiaeth gyhoeddus yn niweidio recriwtio.

*“Mae trafndiaeth gyhoeddus wael yn cael effaith enfawr, yn enwedig i bobl iau.”*

- **Cymhlethdodau yn y system fudd-daliadau** – Mae pobl sy’n gweithio oriau afreolaidd bob wythnos yn wynebu anawsterau sylweddol wrth lywio system fudd-daliadau’r DU. Mae cyflogwyr hefyd yn ei chael hi’n anodd llywio hyn ac roedd camdybiaethau amlwg yn cael eu cynnal ynghylch rhai sy’n cael budd-daliadau.

Mae’r broblem yma’n codi pan na ellir gwarantu oriau rheolaidd i weithwyr naill ai’n is nag 16 awr yr wythnos neu’n uwch nag 16 awr yr wythnos<sup>30</sup>. Dywedodd cyflogwyr y bydd rhai gweithwyr yn gwrthod gweithio dros 16 awr i osgoi colli Lwfans Ceisio Gwaith neu fod gweithwyr yn chwilio am opsiynau mwy sefydlog mewn manau eraill os na ellir gwarantu 16 awr a’u bod mewn perygl o golli Credyd Treth Gwaith.

*“Mae’r peth 16 awr bob amser yn act falansio.”*

- **Effaith COVID-19** – achosodd COVID-19 amrywiaeth o heriau i leoliadau BCGP sy'n ymddangos fel petaent yn hirsefydlog. Arweiniodd COVID-19 at heriau cadw staff, gan gynyddu'r angen am staff newydd, ac mae wedi arwain at oedi wrth i weithwyr gael hyfforddiant a chymwysterau.

*“Mae'r oedi oherwydd COVID gyda hyfforddiant hefyd yn cael effaith gan fod hyn yn golygu bod ôl-groniad o fyfyrwyr sydd heb allu cwblhau eu hyfforddiant.”*

*“Cafwyd ymadawriad staff cymwys a phrofiadol yn ystod ac ers COVID – mae pobl yn mynd i waith gyda llai o oriau a llai o gyfrifoldeb.”*

- **Yr argyfwng costau byw** – Yn gynyddol, mae lleoliadau a'u staff yn teimlo effeithiau'r argyfwng costau byw.

*“Mae'r argyfwng costau byw yn golygu bod gwasanaethau'n costio mwy i'w cynnal.”*

Mae hyn hefyd yn effeithio ar allu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn cymhwyso.

*“Mae cael pobl i gymhwyso yn golygu 16 awr yn y lleoliad, ond allwn ni ddim gwneud hynny, does gennym ni ddim digon o blant ac oriau oherwydd yr hinsawdd economaidd.”*

## Gwahaniaethau o fewn y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Mae'n bwysig cydnabod bod yr heriau a nodwyd yn amrywio yn seiliedig ar y cyd-destunau penodol y mae lleoliadau'n gweithredu ynddynt. Mae gwahaniaethau daearyddol a gwahaniaethau yn ôl y math penodol o leoliad.

### Gwahaniaethau daearyddol

Yng Nghymru, un her allweddol yw ei natur wledig. Mae lleoliadau gwledig yn wynebu anawsterau'n recriwtio gweithwyr oherwydd materion trafniadaeth a dwyseddau poblogaeth isel.

*“Rhwng canol [y dref] mae 'na fannau gwyrdd enfawr. Mae'n anodd i staff o ran cwrdd â chymarebau a safonau gofynnol cenedlaethol.”*

*“Weithiau nid yw'r gweithlu o fewn pellter teithio hyfyw.”*

Mae'r cyd-destun sy'n seiliedig ar le yn cymhlethu heriau denu a recriwtio ymhellach mewn tair ffordd:

1. Mae galw uwch gan leoliadau mewn ardaloedd trefol poblog iawn. Mae'n bosib na fydd digon o alw ar leoliadau mwy gwledig i gyfiawnhau gwasanaethau parhaus.
2. Mae amrywioldeb daearyddol mewn sefydliadau sy'n darparu cyrsiau ac yn ymgysylltu â lleoliadau, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar nifer y bobl gymwys mewn ardal.
3. Mae ardaloedd sydd â lefelau isel o siaradwyr Cymraeg yn cael trafferth recriwtio siaradwyr Cymraeg.

## Gwahaniaethau rhwng lleoliadau

Fel y trafodwyd yn gynharach, mae gwahanol fathau o leoliadau BCGP a phob un yn wynebu rhai heriau unigryw.

Ar y naill law, tra bod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn wynebu galw cynyddol, yn bennaf o gyflwyno Dechrau'n Deg, mae lleoliadau gofal plant yn dechrau crybwyll bod y galw'n lleihau. Mae'n debyg bod clybiau gwyliau yn arbennig o dan fygythiad gan fod yr argyfwng costau byw yn lleihau parodrwydd rhieni i dalu am wasanaethau gofal plant cofrestredig.

*“Ar draws y 32 lleoliad ar gyfer Dechrau'n Deg, bydd rhai yn prynu lleoedd mewn lleoliadau gofal plant sy'n bodoli eisoes, ond ar gyfer 4,000 o leoedd ychwanegol? O ble mae'r staff yn dod, yn enwedig ar gyfer darpariaeth Gymraeg?”*

Ar y llaw arall, mae'n ymddangos bod clybiau gwyliau a lleoliadau ar ôl ysgol yn cael mwy o drafferth yn denu pobl at y patrymau shift – gyda'r nos, gwyliau, a phenwythnosau. Mae lleoliadau blynyddoedd cynnar, yn enwedig lleoliadau gofal dydd, yn tueddu i allu cynnig oriau ac amseroedd mwy rheolaidd.

Amlinellir y gwahaniaethau rhwng mathau o leoliadau o ran cryfderau a heriau denu a recriwtio yn Nhabl 5.

Tabl 5: Gwahaniaethau rhwng mathau o leoliadau o ran cryfderau a heriau denu a recriwtio

<b>Math o leoliad</b>	<b>Heriau denu a recriwtio penodol</b>	<b>Cryfderau denu a recriwtio penodol</b>
<b>Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar</b>	Mae polisïau sy'n cynyddu mynediad at ofal y blynyddoedd cynnar yn cynyddu gofynion recriwtio.	Patrymau sifftiau rheolaidd yn ystod oriau gwaith arferol.  Yn tueddu i wneud yn dda wrth ddenu myfyrwyr coleg/ysgol.
<b>Clybiau gwyliau</b>	Patrwm oriau afreolaidd.  Mae'n benodol o anodd recriwtio gweithwyr cymwys a gall lleoliadau fynd yn anghofrestredig.  Mae llawer o leoliadau yn gweithredu o dan y gorchymyn eithriadau sy'n arwain at faes cystadlu anwastad.	Potensial i recriwtio'r rhai sy'n gweithio mewn addysg fel Cynorthwywyr Addysgu.
<b>Gofal ar ôl ysgol</b>	Oriau anghymdeithasol – boreau cynnar a chyda'r nos.	Potensial i recriwtio'r rhai sy'n gweithio mewn addysg fel Cynorthwywyr Addysgu.



## Bygythiadau yn y dyfodol

Cyfeiriodd y rhanddeiliaid hefyd at gyfres o fygythiadau yn y dyfodol a fydd, yn eu barn hwy, yn creu heriau pellach o ran recriwtio a denu:

- **Diffyg diddordeb gan fyfyrwyr coleg** – Soniodd cyflogwyr am ddiffyg diddordeb gan fyfyrwyr coleg. Maen nhw'n pryderu y gallai waethygu gan ei bod yn ymddangos bod colegau'n cael trafferth cael y myfyrwyr gorau i gofrestru.

*"Mae'r nifer is sy'n manteisio ar gyrsiau nawr yn golygu y bydd y materion yn waeth ymhen 18 mis – mae rhai [cyrsiau] yn gweld 50% yn llai yn ymrestru."*

*"Mae'r colegau yn cymryd penolau ar seddi. Dydyn nhw ddim yn cael y bobl orau'n ymrestru."*

- **Gorchymyn Eithriadau** – Rhannodd llawer o gyflogwyr bryderon am effeithiau'r Gorchymyn Eithriadau ar ganfyddiadau'r cyhoedd am BCGP ac ar eu gallu i gynnal gwasanaethau cofrestredig.

Er ei fod yn fygythiad i bob lleoliad, roedd lleoliadau clybiau gwyliau yn poeni'n benodol am y cynnydd mewn canolfannau hamdden sy'n gweithredu o dan y Gorchymyn Eithriadau. Gall mwy o gystadleuaeth gan leoedd sy'n gallu cynnig gwasanaethau llawer rhatach oherwydd cymarebau is o staff "atal clybiau gwyliau rhag bod yn hyfyw". Mae pryderon y gallai diffyg gweithwyr cymwys a materion diogelu posibl mewn lleoliadau sy'n gweithredu o dan y Gorchymyn Eithriadau roi'r argraff bod maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn isel ei sgiliau ac o ansawdd gwael.

*"Gall canolfannau hamdden gymryd plant yn ystod y gwyliau er gwaethaf diffyg cymwysterau, cymarebau diogelu gwael, ac ansawdd gwael. Ond mae'n rhatach."*

- **Yr argyfwng costau byw** – Fel y nodwyd, mae tystiolaeth bod yr argyfwng costau byw eisoes yn effeithio ar leoliadau BCGP. Wrth i'r argyfwng ddwysáu, mae'r rhanddeiliaid yn ofni y daw gwasanaethau'n ddrutach i'w cynnal, y bydd rhieni'n llai tebygol o chwilio am opsiynau gofal plant y telir amdanynt, ac y daw cyflog yn fwy o broblem wrth ddenu.

*"Mae'r argyfwng costau byw yn golygu bod llawer o rieni yn troi at opsiynau rhatach eraill ar gyfer gofal plant. Mae rhai gwasanaethau yn gweld y galw'n gostwng, yn enwedig yn ystod y gwyliau."*

*"Os yw'r galw'n lleihau oherwydd yr argyfwng costau byw, yna bydd gwasanaethau yn cau."*

*"Yn fwyfwy, all rhieni ddim fforddio gofal."*

## Y trilema gofal

Mae'r ymchwil hwn wedi amlygu y gall ymyriadau polisi, er eu bod wedi'u cynllunio gyda bwriadau da, greu materion newydd yn anfwriadol.

Mae gwella statws rolau BCGP ac ansawdd gwasanaethau trwy gofrestru gwasanaethau a chynyddu lefel cymwysterau gweithlu BCGP yn ei gwneud yn anoddach ac felly'n llai deniadol i ymuno â'r sector BCGP.

Cynigir bod deall system BCGP drwy lens y trilema gofal yn ddefnyddiol i ddeall yn well y berthynas rhwng denu, statws ac ansawdd.

## Yr her o gynyddu rheoleiddio a phroffesiynoli

Mae cyflogwyr a'r rheini mewn rolau ategol o blaid mwy o reoleiddio a symud tuag at broffesiynoli o fewn lleoliadau BCGP, ac mae llawer hefyd yn credu bod dod yn fwy proffesiynol yn allweddol i ddenu mwy o weithwyr.

Er enghraifft, adroddwyd mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid BCGP ynghylch posibilrwydd cofrestru gweithwyr drwy Gofal Cymdeithasol Cymru, bod cyflogwyr o blaid symudiadau o'r fath fel "datblygiad cadarnhaol i gydnabod rôl hanfodol gweithwyr gofal plant".

Fodd bynnag, ar draws y canfyddiadau, cwrdd â chwotâu staff cymwys yn amlwg yw'r broblem fwyaf a drafodwyd. Mae'n debyg bod hyn yn arbennig o wir ar gyfer rhai hyn yn ogystal â'r rhai sydd ag ymrwymïadau eraill ac sy'n ystyried bod gwaith BCGP yn opsiwn rhan-amser, fel myfyrwyr a rhieni. Mae'r grwpiau hyn yn elfennau allweddol o'r gweithlu presennol. Mae sicrhau bod lleoliadau BCGP yn llai deniadol i'r grwpiau hyn yn arwain at ganlyniadau amlwg.


Adroddwyd lleoliadau BCGP am bryderon gwirioneddol a chynyddol am ganlyniadau anfwriadol proffesiynoli a rheoleiddio ar atyniad lleoliadau BCGP ac ansawdd y gofal a ddarperir. I gwrdd â chwotâu staff cymwys, mae lleoliadau'n dewis rhwng cyflogi pobl nad ydynt efallai'n weithwyr BCGP o ansawdd, neu fentro colli eu statws cofrestredig. Mae hwn yn benderfyniad anodd i unrhyw leoliad ei wneud.

## Cydrannau'r trilemma gofal

Mae'r dadansoddiad hwn o broffesiynoli a rheoleiddio yn arwain at gasgliad pwysig. System gymhleth yw'r system gofal cymdeithasol a gofal plant – gall newidiadau mewn un elfen arwain at ganlyniadau anfwriadol mewn un arall.

Awgryma'r ymchwil fod tair prif elfen gydgyssylltiedig yn ei llunio:

- **Statws y gwaith** – Barn gweithwyr presennol a darpar weithwyr a'r cyhoedd am waith BCGP. Bwriad symudiadau i broffesiynoli lleoliadau BCGP yw cynyddu'r statws.
- **Ansawdd gofal a chymorth** – Y safonau darparu gofal ar draws lleoliadau BCGP. Bwriad symudiadau i reoleiddio lleoliadau yw cynyddu ansawdd.
- **Atyniad y sector** – Pa mor ddeniadol yw lleoliadau BCGP ar gyfer ceiswyr gwaith. Bwriad datblygiad rhaglenni fel Gofalwn Cymru yw cynyddu'r atyniad.



Ffigur 4: Y trilema gofal

Dengys Ffigur 4 sut mae'r ffactorau hyn yn gydgyssylltiedig trwy'r trilema gofal.

## Defnyddio y trilema gofal

Model meddwl gweledol yw'r trilema gofal gyda'r bwriad o hogi meddwl am gyfaddawdau polisi trwy symleiddio'r prif berthnasoedd. Yn y trilema gofal, mae statws, ansawdd ac atyniad yn allbynnau polisiau eraill; mae ffactorau fel cyflog, hyfforddiant, rheoleiddio neu wella ansawdd yn fewnbynnau polisi sy'n llunio'r tair elfen hynny.


Er bod gan gyrff cyhoeddus amrywiaeth o offer i ddeall effaith, gall cyfathrebu cyfaddawdau fod yn heriol. Mae'r trilema gofal wedi'i gynllunio i helpu i ddangos effaith bosibl polisiau mewn fformat y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ag amrywiaeth o arddulliau arwain a chefnidiroedd yn ei ddeall.

Er enghraifft, drwy fwriadu gwella ansawdd gofal trwy gynyddu gofynion isafswm cymhwyster, fel sy'n digwydd nawr (gweler Ffigur 5), mae'r cynnydd canlyniadol mewn rhwystrau mynediad yn gwneud lleoliadau BCGP yn llai deniadol. Ymhellach, fel sy'n dechrau digwydd, mae anawsterau recriwtio gweithwyr cymwys wedyn yn mentro statws ac ansawdd BCGP wrth i leoliadau fentro cael eu dadreoleiddio.



Ffigur 5: Sut mae symud tuag at broffesiynoli yn effeithio ar y trilema gofal. Dengys 5A sut, ar y dechrau, mae ansawdd yn gwella ac atyniad yn lleihau. Dengys 5b, pan fydd atyniad yn isel, y gall statws ac ansawdd leihau.

Os bydd cyflog yn cynyddu (Ffigur 6), yna daw BCGP yn gysylltiedig â gwaith cyflog uwch a gellir ei ystyried yn uwch ei statws. Daw'n haws ysgogi'r gweithlu posibl a'r gweithlu presennol i gymryd rhan mewn cymwysterau, a daw'r gwaith yn fwy deniadol efallai, gan gynnwys i grŵp mwy amrywiol o bobl. Mae sicrhau bod goblygiadau'r trilema yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau yn bwysig er mwyn lleihau tebygolrwydd canlyniadau anfwriadol.



Ffigur 6: Sut gall cynyddu cyflog wella'r trilema gofal.



## Crynodeb o'r adran

Mae lleoliadau BCGP yn wynebu heriau sylweddol, cymhleth, ac ar adegau heriau croes wrth ddenu a recriwtio pobl i swyddi.

Mae materion hirsefydlog fel cyflogau isel a diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus yn parhau i fod yn heriau allweddol, ond mae materion mwy diweddar yn ymwneud â chymwysterau a chwotâu, yn ogystal â materion allanol fel COVID-19 a'r argyfwng costau byw, yn creu rhwystrau cynyddol i gyflogwyr ac ymgeiswyr.

Gall deall y broses o wneud penderfyniadau yn BCGP trwy lens trilema gofal fod yn ddefnyddiol i sicrhau nad yw newidiadau yn y dyfodol yn effeithio'n negyddol ar ymdrechion denu.

---

# 4

## Rôl a gwerth Gofalwn Cymru



---

# Rôl a gwerth Gofalwn Cymru

Nododd cyflogwyr a'r rhai mewn rolau ategol gyfres o heriau cymhleth a wynebwyd wrth ddenu a recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae tâl, proffesiynoli a rheoleiddio yn rhwystrau mawr. Mae'r adran hon yn egluro'r heriau allweddol o ran denu a recriwtio.

## Prif negeseuon

- 1 Mae cyflogwyr o'r farn bod rôl Gofalwn Cymru yn ddefnyddiol ac maent yn ymwybodol i raddau helaeth o fodolaeth Gofalwn Cymru. Fodd bynnag, nid yw pob cyflogwr yn ymwybodol o'u gweithgareddau.
- 2 Mae gwaith Gofalwn Cymru yn cynnwys gwefan Gofalwn Cymru, hybu ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau, gwaith allgymorth ac ymgysylltu a chefnogi darpar ymgeiswyr.
- 3 Er bod y wefan yn fuddiol, adroddwyd bod angen gwella profiad y defnyddiwr a'r porth swyddi yn ogystal â chryfhau brandio.

## Canfyddiadau o Gofalwn Cymru

Ar y cyfan, ystyrir bod Gofalwn Cymru yn rym cadarnhaol i BCGP yng Nghymru. Cred y rhanddeiliaid ei fod yn blatfform cadarnhaol, gyda gwybodaeth ac astudiaethau achos defnyddiol, ac ymgyrchoedd effeithiol. Mae'n debyg bod hyn am fod BCGP wedi bod yn ymylol yn draddodiadol i drafodaethau gofal cymdeithasol ehangach a bod rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r sylw newydd yn fawr.

Roedd cyflogwyr BCGP a oedd yn rhan o'r ymchwil yn ymwybodol i raddau helaeth o Gofalwn Cymru. Fodd bynnag, rhaid nodi bod y rhan fwyaf yn ymwneud â fforymau cenedlaethol neu ranbarthol a fynychir gan gynrychiolwyr Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Gweithgareddau BCGP Gofalwn Cymru

Mae gan Gofalwn Cymru gyfres o weithgareddau sy'n cefnogi'r sector gofal ehangach yn ogystal â rhai sy'n benodol i achos BCGP. Caiff ei weithgareddau eu hyrwyddo trwy ei wefan, ei ymgysylltiad â'r sector trwy fforymau cenedlaethol a rhanbarthol, a'i ymgysylltiad â'r cyhoedd a cheiswyr gwaith yn gyffredinol trwy ymgyrchoedd hysbysebu a digwyddiadau allgymorth.

Lle mae cyflogwyr yn ymwybodol o'r gweithgareddau, maent yn ganmoliaethus iawn. Fodd bynnag, nid yw pob cyflogwr yn ymwybodol o'u gweithgareddau. Awgryma hyn fod lle i Gofalwn Cymru estyn ei ymgysylltiad ymhellach.

## Gwefan Gofalwn Cymru

Mae gwefan Gofalwn Cymru yn safle amlswyddogaethol, sy'n cynnwys porth swyddi am ddim, cyrsiau hyfforddi a thudalennau addysgiadol ar sectorau a newyddion diweddaraf Gofalwn Cymru. Mae'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi cael un safle lle cedwir gwybodaeth o'r fath, ac yn gwerthfawrogi'r adnoddau a gynhwysir yn arbennig.

Mae'r diffygion allweddol a grybwyllwyd yn ymwneud â phrofiad y defnyddiwr. Soniodd llawer o'r rhanddeiliaid fod y wefan yn aneglur ac yn gymhleth, gyda rhywfaint o'r wybodaeth yn cael ei chadw mewn manau nad yw'n hawdd dod o hyd iddynt. Nododd sawl un faterion technegol wrth ddefnyddio'r wefan hefyd, yn enwedig wrth ddefnyddio'r porth swyddi. Mae'n ymddangos bod cyflogwyr hefyd yn gweld bod y porth swyddi yn anymarferol gan ei fod yn cymryd llawer o amser iddynt bostio hysbyseb swydd. O ystyried bod actorion BCGP cenedlaethol hefyd yn darparu pyrth swyddi am ddim (h.y., Mudiad Meithrin), mae'n anodd gweld lle mae gwerth porth Gofalwn Cymru.

Un broblem arall yw'r dudalen hafan. Mae baneri mawr yn cuddio gwybodaeth allweddol ac mae diffyg brandio neu hunaniaeth Gofalwn Cymru. Nid yw'n glir o'r dudalen hafan hon beth yw Gofalwn Cymru, beth mae'n ceisio ei gyflawni, nac at bwy y mae wedi'i anelu.



## Hybu ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau

Mae tudalennau gwybodaeth ar y wefan yn darparu adnoddau, cyngor a gwybodaeth sylfaenol am yr hyn y mae'n ei olygu i weithio mewn gwahanol leoliadau BCGP a beth mae disgrifiadau rôl yn ei olygu. Maent hefyd yn cynnwys astudiaethau achos cadarnhaol o safbwynt gweithwyr BCGP a'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth.

Mae Gofalwn Cymru wedi datblygu cyfres o ymgyrchoedd ers ei sefydlu gan gynnwys ymgyrchoedd cyffredinol am y sector gofal cymdeithasol a gofal plant ehangach, ac ymgyrchoedd penodol am BCGP. Mae ymgyrchoedd yn aml yn dilyn gweithwyr ar draws diwrnod neu foment nodweddiadol yn eu gwaith. Datblygir yr holl fideos a deunyddiau yn Gymraeg a Saesneg.

Fe'u rhannir i gyd ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol amrywiol Gofalwn Cymru – YouTube, Facebook, Instagram, Twitter a Snapchat. Caiff llawer ohonynt hefyd eu chwarae ar y teledu a'r radio cenedlaethol neu eu hargraffu mewn allfeydd cyfryngau cenedlaethol a lleol. Bu ymgyrch 'Gwnewch wahaniaeth ym mlynnyddoedd cynnar plentyn' yn arbennig o lwyddiannus wrth gyrraedd cynulleidfia eang gyda bron i 200,000 yn ei gweld.

Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o gadarnhaol am y tudalennau gwybodaeth a'r ymgyrchoedd. Credant eu bod yn bwysig o ran chwalu mythau, hybu ymwybyddiaeth a gwella delwedd y sector gofal cymdeithasol a gofal plant a rolau BCGP penodol.

## Gwaith allgymorth ac ymgysylltu

Mae Gofalwn Cymru yn hwyluso ac yn cynnal rhaglen helaeth o waith allgymorth ac ymgysylltu. Bwriad y gweithgareddau hyn yw darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i geiswyr gwaith ac ymgeiswyr posibl er mwyn denu a recriwtio mwy.

Cynhelir y gwaith allgymorth ac ymgysylltu hwn yn bennaf trwy lysgenhadon Gofalwn – sef gweithwyr presennol sy'n gwirfoddoli eu hamser i rannu profiadau – a chysylltwyr gyrfa gofal rhanbarthol sy'n cael eu hariannu gan Gofal Cymdeithasol Cymru i ymgysylltu â chyflogwyr, gweithwyr ac ymgeiswyr posibl ar draws rhanbarthau Cymru. Mae Gofalwn Cymru wedi datblygu ymhellach becyn cymorth i randdeiliaid, sef pecyn o adnoddau y gall darparwyr addysg ei ddefnyddio i ychwanegu at addysgu ac adnoddau gofal cymdeithasol a BCGP.

Mae cyflogwyr BCGP yn gwerthfawrogi'n arbennig yr ymgysylltu â phlant oed ysgol gan nad oes gan ysgolion y gallu yn aml i ddarparu gwybodaeth gywir o ansawdd uchel am rolau BCGP. Yn bwysig, wrth ymgysylltu â phlant, mae cyfleoedd i negeseuon gael eu trosglwyddo i oedolion. Mae cyflogwyr a'r rheini mewn rolau ategol hefyd yn gwerthfawrogi y dylai ymgysylltu â phlant ysgol ddarparu atebion tymor hwy i'r argyfwng denu a recriwtio.


At hynny, roedd yr holl gyflogwyr a oedd wedi ymgysylltu â'u cysylltydd rhanbarthol yn gadarnhaol iawn am eu profiad.

## Cefnogi darpar ymgeiswyr

Mae Gofalwn Cymru hefyd wedi datblygu cyfres o gynlluniau a chyrsgiau a gynlluniwyd i'w gwneud hi'n haws i bobl heb wybodaeth am leoliadau BCGP na phrofiad ohonynt ddod o hyd i waith. Wrth ddarparu cymorth wedi'i deilwra i ymgeiswyr, mae Gofalwn Cymru yn cymryd camau pwysig i baratoi ymgeiswyr yn well ar gyfer realiti'r gwaith.

Yn arbennig o bwysig yma mae'r cwrs Cyflwyniad i Ofal Plant a ddechreuodd ddiwedd 2022. Cwrs byr, 3 diwrnod, ar-lein fel arfer, yw hwn sy'n rhad ac am ddim. Y bwriad yw cyflwyno pobl i hanfod BCGP ac i ofynion penodol y rôl. Caiff pynciau fel cyfathrebu, diogelu ac arferion gwaith eu trafod gan y cwrs. Mae Gofalwn Cymru bellach yn cyflwyno'r cwrs hwn yng Ngholeg Menai fel rhan o'i raglen gyflogadwyedd ar gyfer oedolion sy'n dysgu.

Maent wedi cynnal pum cwrs i gyd hyd yn hyn, ac yn bwriadu creu partneriaethau newydd ar gyfer y cam nesaf fel colegau a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ehangu ar y llwyddiant gyda Choleg Menai. Bydd y cam nesaf hefyd yn cynnwys cysylltu'r bobl sydd wedi cwblhau'r rhaglen â chyflogwyr lleol sydd wedi cofrestru â'r Cynllun Gwarant Cyfweliad (GIS).



## Crynodeb o'r adran

Mae Gofalwn Cymru wedi dod â chryn werth i BCGP o ran darparu cymorth ac adnoddau i gyflogwyr ac ymgeiswyr. Yn benodol, mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi ei fuddsoddiad mewn allgymorth ac ymgysylltu, ac mewn hybu ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau'r cyhoedd am y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Er bod y wefan yn cael ei gwerthfawrogi fel lle defnyddiol i gadw adnoddau, byddai gwella profiad y defnyddiwr a sicrhau hunaniaeth glir yn caniatáu i Gofalwn Cymru gefnogi lleoliadau BCGP ymhellach.

---

# 5

## Argymhellion



---

# Argymhellion

Darperir argymhellion i fynd i'r afael â'r heriau denu a recriwtio a wynebir gan leoliadau BCGP ar gyfer Gofalwn Cymru, a Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ogystal ag ar gyfer lleoliadau a chyflogwyr BCGP.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil hwn wedi dangos, heb gydweithio mwy ystyrllon a chydgyssylltiedig â darparwyr, rheoleiddwyr, gweithwyr, y sector addysg, y cyhoedd, a'r llywodraeth, mae'r newid y gallai Gofalwn Cymru (a thrwy hynny Gofal Cymdeithasol Cymru) a chyflogwyr BCGP greu yn gyfyngedig.

Oherwydd hyn, ar ôl yr argymhellion, amlinellir chwe maes lle mae angen diwygio'r system.

## Beth all Gofalwn Cymru ei wneud?

Ar y cyfan, dylai Gofalwn Cymru barhau i wneud mwy o'r hyn y mae'n llwyddo ynddo'n barod – sef ymgyrchu, ymgysylltu â cheiswyr gwaith a chyflogwyr, a datblygu adnoddau. Awgrymir chwech argymhelliad. Ystyrir bod y chwech i gyd yn hanfodol, ac mae'r mwyafrif yn atebion cost isel, hawdd eu gweithredu.

Mae Tabl 6 yn amlinellu'r chwe argymhelliad ar gyfer Gofalwn Cymru a'u lefel blaenoriaeth. Gan fod llawer o'r argymhellion i barhau ac ehangu gweithgareddau presennol, maent yn cael eu categorio fel rhai ailystyried sut mae gwneud, parhau i wneud a dechrau gwneud. Mae manylion yr holl argymhellion sy'n canolbwyntio ar Gofalwn Cymru yn dilyn.

Mae pedwar argymhelliad ychwanegol ar gyfer Gofalwn Cymru yn cael eu darparu yn y prif adroddiad – ***Deall denu a recriwtio yn sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru a rôl Gofalwn Cymru.***

Tabl 6: Argymhellion Gofalwn Cymru i gefnogi lleoliadau BCGP

<b>Argymhellion ar gyfer Gofalwn Cymru</b>		<b>Amserlen</b>
Parhau i	Ehangu gweithgareddau hysbysebu ac ymgyrchu.	<b>Yn syth</b>
Parhau i	Datblygu mwy o adnoddau ar gyfer y wefan.	<b>Yn syth</b>
Ailystyried sut mae	Datblygu hunaniaeth gliriach.	<b>Yn syth</b>
Dechrau	Cefnogi safleoedd BCGP i broffesiynoli o'r tu mewn.	<b>Tymor canolig</b>
Parhau i	Ddefnyddio a chefnogi'r system leol.	<b>Tymor canolig</b>
Dechrau	Cefnogi'r sector i ddeall pwysigrwydd amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant.	<b>Tymor hir</b>

## 1. PARHAU I: Ehangu gweithgareddau hysbysebu ac ymgyrchu

Gydag ychydig eithriadau, mae lleoliadau BCGP yn hynod gadarnhaol am hysbysebu ac ymgyrchu presennol Gofalwn Cymru, er bod lle i addasu dulliau neu ddatblygu rhai newydd.

Yr elfen allweddol yma yw sicrhau bod ymgyrchoedd yn addysgu'r cyhoedd am bwysigrwydd gwaith BCGP mewn datblygiad plant, ac am bwysigrwydd gwasanaethau cofrestredig. Mae cyflogwyr yn pwysleisio'r angen i arddangos BCGP fel rhan hanfodol o gymdeithas Cymru sy'n helpu plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cefnogi economïau lleol a chenedlaethol.

## 2. PARHAU I: Ddatblygu mwy o adnoddau ar gyfer y wefan

Dylai Gofalwn Cymru ddatblygu adnoddau newydd i gefnogi lleoliadau BCGP ac ymgeiswyr posibl (gweler Tabl 7).

Gofynnodd cyflogwyr ymhellach am ddarparu astudiaethau achos ychwanegol a mwy diweddar, a bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn fformatau hawdd eu darllen gan nad oes gan gyflogwyr yr amser i ddarllen dogfennau helaeth a gwylio'r fideos.

Tasg anodd yw datblygu a diweddarau adnoddau, yn enwedig pan fydd adnoddau'n cyfeirio at bolisiau a chynlluniau nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i BCGP, fel y system fudd-daliadau. Fodd bynnag, nid yw cyfeirio pobl at safleoedd ac adnoddau eraill lle ceir yr wybodaeth yn gweithio. Gan amlaf, mae gwybodaeth mewn manau eraill yn anodd i gyflogwyr ac ymgeiswyr ei deall ac mae'n creu heriau o ran denu a recriwtio.

Tabl 7: Rhestr o adnoddau y dylai Gofalwn Cymru eu datblygu

Adnodd	Disgrifiad	Cynulleidfa darged
Canllaw i ddeall hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer rolau BCGP	Trosolwg clir iawn o ofynion hyfforddiant a chymwysterau gofynnol ac a ffafir ar gyfer BCGP. Mae cyflogwyr yn nodi nad yw'r adnoddau presennol yn ddigon clir.	Ymgeiswyr.
Canllaw i lywio'r system fudd-daliadau ar gyfer gweithwyr BCGP	Mae canolbwyntio ar ddeall Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Cynhwysol i'r rhai sy'n gweithio tua 16 awr yr wythnos yn hanfodol.	Yn ddelfrydol, dylid datblygu dau adnodd annibynnol, un ar gyfer cyflogwyr ac un ar gyfer ymgeiswyr.
Canllaw i gefnogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith	Mae yna wahanol gynlluniau a chyfleoedd yn y DU sy'n ceisio annog pobl i ddychwelyd i'r gweithlu fel y Rhaglen Dychwelyd i'r Gwaith a'r Cynllun Ailddechrau. Byddai rhoi arweiniad ynghylch sut mae'r cynlluniau hyn yn gweithio'n ymarferol yn ddefnyddiol.	Yn ddelfrydol, dylid datblygu dau adnodd annibynnol, un ar gyfer cyflogwyr ac un ar gyfer ymgeiswyr.
Canllaw marchnata	Ychydig o lleoliadau sydd ag arbenigedd marchnata mewnlol ac maent yn ei chael hi'n anodd gwybod sut i lywio marchnata, gan gynnwys sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a sut i dargedu ymgyrchoedd at gynulleidfaoedd penodol.	Lleoliadau bach a chanolig.
Canllaw i brofiad gwaith a lleoliadau gwaith	Nid yw hyd yn oed lleoliadau sydd â pherthynas gref ag ysgolion lleol yn glir sut y gallai lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith weithredu yn ymarferol. Byddai diweddarau'r canllaw presennol i gynnig mwy o eglurder am y broses a phethau allweddol i'w hystyried yn ddefnyddiol.	Yn ddelfrydol, dylid datblygu dau adnodd annibynnol, y naill i gyflogwyr a'r llall i ysgolion.

### 3. AILYSTYRIED SUT MAE: Datblygu hunaniaeth gliriach

Mae angen hunaniaeth glir ar Gofalwn Cymru. Mae angen iddo gael eglurder cysyniadol llwyr ynghylch yr hyn y mae'n ceisio ei wneud, a pha ddeinameg system a grwpiau o bobl y mae'n mynd i'r afael â nhw/gweithio gyda nhw. Dylai hyn hefyd helpu i wella ymwybyddiaeth.

Am fod newidiadau i'r wefan yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, mae nawr yn amser da i ddatblygu'r hunaniaeth hon ac egluro am beth mae Gofalwn Cymru yn sefyll.

Dylai'r wefan fod â thudalen hafan glir sy'n esbonio pwy yw Gofalwn Cymru a sut maen nhw'n cefnogi lleoliadau BCGP. Mae'n bwysig bod gwaith chwarae'n parhau i gael ei gynnwys.

Byddai adran Amdanom Ni hefyd yn ddefnyddiol, a honno efallai'n cynnwys y Cysylltwyr Rhanbarthol a'r Hyfforddwyr Gwaith y gallai cyflogwyr ac ymgeiswyr ddod ar eu traws.

## 4. DECHRAU GWNEUD: Cefnogi safleoedd BCGP i broffesiynoli o'r tu mewn

Mae rhai manteision amlwg i broffesiynoli'r gweithlu BCGP, ond mae angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n fwy sensitif ac ymatebol i bryderon cyflogwyr. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod cyflogwyr a gweithwyr yn teimlo bod ganddynt berchnogaeth dros y broses ac nad yw proffesiynoli yn effeithio ar eu hymreolaeth.

Mae cefnogi lleoliadau BCGP i safoni a phroffesiynoli o'r tu mewn yn allweddol i baratoi'r llwybr llyfnach i broffesiynoli. O ystyried y cysylltiadau â chyflogwyr ac ymgeiswyr, mae Gofalwn Cymru mewn sefyllfa dda i wneud hyn. Gall hyn gynnwys:

- Gweithio gyda sefydliadau mewn ardaloedd a rhanbarthau i hyrwyddo symleiddio a safoni prosesau.
- Gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio at gyrsiau a chymwysterau priodol. Mae potensial i ddatblygu sêl bendith i ddyfarnu i gyrsiau.
- Cefnogi cyflogwyr i ddeall a gwerthfawrogi cofrestru a chymhwyso.
- Cefnogi ymgeiswyr i ddeall a gwerthfawrogi cofrestru a chymhwyso, a hynny efallai trwy ddarparu fforwm neu opsiwn sgwrsio byw ar y wefan.
- Parhau i ddatblygu cyrsiau trosiannol neu atodol i gefnogi pobl â chymwysterau mewn meysydd cysylltiedig fel addysg a gwaith cymdeithasol i ddod yn gymwys ar gyfer lleoliadau BCGP. Yn benodol, byddai cwrs atodol wedi'i anelu at Gynorthwyrwyr Addysgu fel y gallent ymestyn oriau gwaith gyda'r nôs a/neu wyliau yn ddefnyddiol.

## 5. PARHAU I: Ddefnyddio a chefnogi'r system leol

Ystyrir mai ymgysylltu ac allgymorth ag ysgolion, canolfannau gwaith a sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth leol yw un o gryfderau allweddol gwaith Gofalwn Cymru. Mae angen i'r gwaith hwn barhau a thyfu.

Nodwyd bod y mathau canlynol o ymgysylltu yn flaenoriaethau allweddol gan gyflogwyr a rhanddeiliaid eraill:

- **Lleoliadau gwaith** – Cefnogi lleoliadau i ymgysylltu ag ysgolion mewn profiad gwaith a lleoliadau gwaith. Gall rhoi blas i bobl iau ar weithio mewn lleoliadau BCGP fod yn ddefnyddiol i gynyddu cymhelliant i wneud cais yn nes ymlaen.



- **Parhau i ddatblygu adnoddau ar gyfer ysgolion a cholegau** – Mae'r diffyg addysgu gofal cymdeithasol a gofal plant arbenigol mewn ysgolion a cholegau yn ei gwneud hi'n anodd i'r sector ehangach reoli ei negeseuon mewn lleoliadau addysg. Mae'n allweddol datblygu adnoddau y gall ysgolion a cholegau eu defnyddio sy'n rhoi dealltwriaeth a disgwyliadau mwy realistig o rolau BCGP.

Mae lle hefyd i ymgysylltu â phobl sy'n gweithio mewn ysgolion – cynorthwyrwyr addysgu yn bennaf – fel recriwtiaid posib i BCGP. Awgrymodd un cyflogwr "ddiwrnod hyfforddi mewn swydd i staff ysgol i godi eu hawydd i weithio y tu allan i'r diwrnod ysgol." Gallai hyn fod yn weithgaredd defnyddiol i'r cysylltwyr rhanbarthol.

- **Prifysgolion** – O ystyried bod llawer o brifysgolion yn darparu cyrsiau sy'n berthnasol i BCGP, a/neu fod ganddynt wasanaethau gyrfaedd eisoes sy'n cefnogi myfyrwyr i gael swyddi rhan-amser a lleoliadau gwaith, mae cyfle clir i ymgysylltu â phrifysgolion a'u gwasanaethau gyrfaedd. Mae gan lawer fyrddau swyddi mewnol sy'n wynebu myfyrwyr y gellid eu defnyddio i arddangos negeseuon am swyddi Gofalwn Cymru. Mae yna hefyd ddigwyddiadau gyrfaedd mawr y gall cysylltwyr rhanbarthol eu mynychu..

## 6. DECHRAU GWNEUD: Cefnogi cyflogwyr i ddeall pwysigrwydd amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant

Mae diffyg cymhelliant gan gyflogwyr i fynd ati i gynyddu amrywiaeth wrth gyflogi. Fodd bynnag, awgryma canfyddiadau'r ymchwil y byddai ychwanegu pwysau pellach ar ddarparwyr i adeiladu amrywiaeth yn eu harferion recriwtio yn wrthgynhyrchiol.

Mae'r diffyg cymhelliant i gynyddu amrywiaeth yn deillio o'r heriau ehangach sy'n wynebu cyflogwyr wrth gyflogi unrhyw un. Ar y cyfan, nid oes ganddynt yr amser, yr adnoddau, y gallu na'r cymhelliant i wneud gwaith o'r fath.

Fodd bynnag, mae tytiolaeth sylweddol bod gweithluoedd mwy amrywiol, cynhwysol a chyfartal yn fwy deniadol i geiswyr gwaith<sup>31</sup>. Yn ogystal, gall gweithluoedd gofal sy'n gynrychioliadol o'u defnyddwyr ddarparu gwell ansawdd gofal. Yn olaf, gall y defnydd eang o iaith ryweddol ac oedraniaethol i ddisgrifio'r gweithlu ei wneud yn anneniadol i'r rhai nad ydynt yn uniaethu â themau o'r fath.

Golyga hyn ei bod yn bwysig sicrhau nad yw amrywiaeth yn cael ei diystyru. Dylai Gofalwn Cymru hyrwyddo manteision amrywiaeth, darparu adnoddau a chynghor i gefnogi darparwyr, a darparu cymorth i ymgeiswyr o gefndiroedd mwy amrywiol. Nid argymhellir bod Gofalwn Cymru yn ceisio 'pregethu' i gyflogwyr – ond yn hytrach gweithio gyda nhw.

## Beth all lleoliadau BCGP ei wneud?

Bu lleoliadau BCGP yn weithgar iawn yn trafod, datblygu a gweithredu atebion i'w heriau denu a recriwtio. Mae tri phrif faes lle gall lleoliadau addasu eu harferion, gan adeiladu ar lwyddiannau lleoliadau eraill (gweler tabl 8).

Tabl 8: Argymhellion ar gyfer cyflogwyr a lleoliadau EYCC

<b>Argymhellion i gyflogwyr a lleoliadau</b>		<b>Amserlenni</b>
Rhaid gwneud	Cymryd rhan mewn trafodaethau lleol a chenedlaethol.	<b>Yn syth</b>
Dylid gwneud	Chwilio am arian lleol a chenedlaethol.	<b>Tymor canolig</b>
Gellid gwneud	Addasu arferion denu a recriwtio	<b>Tymor canolig</b>

### 1. RHAID GWNEUD: Cymryd rhan mewn trafodaethau lleol a chenedlaethol

Ceir llawer o gyfleoedd i gyflogwyr gymryd rhan mewn trafodaethau lleol a chenedlaethol am ddyfodol y sector gofal cymdeithasol a gofal plant, a rhoi eu barn amdanynt.

Mae'r rhai sy'n ymgysylltu â'u cysylltwyr rhanbarthol a fforymau rhanddeiliaid cenedlaethol yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol am eu gallu i fynd i'r afael â heriau denu a recriwtio. Maent hefyd yn fwy ymwybodol o weithgareddau Gofalwn Cymru, ac yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru â'r Cynllun Gwarant Cyfweiliad a chynlluniau eraill.

Rhaid i gyflogwyr fynd ati i ymgysylltu. Yn benodol, dylent ymgysylltu â Gofalwn Cymru a chael gwybod y diweddaraf am eu gwaith parhaus, defnyddio ymgyrchoedd cenedlaethol yn gyfle i rannu eu negeseuon lleol eu hunain, defnyddio adnoddau at eu dibenion eu hunain, cyfeirio darpar ymgeiswyr at y wefan, ac ymgysylltu â digwyddiadau a fforymau lleol a rhanbarthol.

## 2. DYLLID GWNEUD: Chwilio am gyfleoedd ariannu lleol a chenedlaethol.

Dylai lleoliadau BCGP fynd ati i chwilio am gynlluniau, cyfleoedd ariannu a chymorth sydd ar gael i gyflogwyr yng Nghymru a'r DU a allai gefnogi eu hymdrechion recriwtio.

Mae'r math hwn o gymorth yn cynnwys cynlluniau a chyllid sy'n cefnogi recriwtio a datblygu'r gweithlu, fel y Cynllun Ailddechrau a Rhaglenni Dychwelyd i'r Gwaith neu Interniaeth i Ddychwelwyr (interniaeth sydd wedi'i chynllunio i gefnogi pobl sy'n ailymuno â'r gweithlu).

Gall hefyd gynnwys cymorth a roddir i gyflogwyr i leihau allyriadau carbon a chyrraedd nodau sero net, mynd i'r afael â heriau trafndiaeth lleol a chenedlaethol i gefnogi rolau gyrru, archwilio'r defnydd o dechnolegau digidol, neu hyfforddi gweithluoedd mewn sgiliau digidol.

## 3. DYLLID GWNEUD: Addasu arferion denu a recriwtio

Nododd cyflogwyr BCGP eu bod wedi llwyddo gan ddefnyddio ystod o strategaethau i addasu eu harferion denu a recriwtio. Gall llawer o'r rhain fod yn berthnasol i gyflogwyr eraill. Mae Tabl 10 yn tynnu sylw at strategaethau allweddol.

Tabl 9: Strategaethau a ddefnyddir gan leoliadau BCGP i wella prosesau denu a recriwtio

Strategaeth a disgrifiad	Camau gweithredu a thystiolaeth benodol
<p><b>Dangos pwysigrwydd y gwaith</b></p> <p>Cadarnhau pwysigrwydd y swydd drwy wahodd rhieni ac ymgeiswyr i mewn a chysylltu â nhw. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer lleoliadau sy'n cynnwys gwasanaethau gwaith chwarae.</p>	<p><i>"Er mwyn recriwtio pobl i mewn, mae angen inni allu gwneud i bobl weld beth rydyn ni'n ei wneud a pha mor fuddiol yw hyn i rieni, plant a'r bobl sy'n gweithio i ni."</i></p> <p><i>"Rydym yn gwahodd rhieni i mewn i chwarae a chysylltu a gweld pwysigrwydd yr hyn sy'n cael ei wneud."</i></p>
<p><b>Ymgysylltu â cheiswyr gwaith a myfyrwyr</b></p> <p>Mynd at fyfyrwyr a cheiswyr gwaith yn ogystal â thargedu grwpiau gwahanol o bobl.</p>	<p><i>"Buom yn cynnal diwrnodau gyrfaoedd, gweithdai, ac ati i gadw'r diddordeb yno i bobl iau."</i></p> <p><i>"Rydyn ni'n defnyddio potiau bach o gyllid i hyfforddi disgyblion chweched dosbarth i lefel 2 er mwyn iddyn nhw allu gweithio yn ystod y gwyliau."</i></p> <p><i>"Gall llysgenhadon myfyrwyr, arch-genhadon a chymunedau gwirfoddol barhau i ddenu mwy o wirfoddolwyr."</i></p>

## Strategaeth a disgrifiad

### Ymgysylltu â'r rhai yn y sector addysg

Ymgysylltu â'r rhai sy'n gweithio mewn rolau tebyg mewn addysg fel cynorthwyrwyr addysgu.

## Camau gweithredu a thystiolaeth benodol

*"Rydym yn mynychu cynadleddau cynorthwyrwyr addysgu i ddenu cynorthwyrwyr addysgu i hyfforddi mewn chwarae. Mae hyfforddiant mewn chwarae yn gwella eu CVs mewn ysgolion, ond hefyd yn gwneud iddynt ystyried estyn y diwrnod neu ddod yn ôl ar gyfer gwyliau."*

*"Rydym yn ymgysylltu â chynorthwyrwyr addysgu ac yn ceisio traws-hyfforddi pobl."*

### Defnyddio rhwydweithiau lleol ffurfiol ac anffurfiol

Mae hyn yn golygu ymgysylltu â chymunedau lleol i gyrraedd ceiswyr gwaith.

*"Fel arfer ni chawn lawer o drafferth yn dod o hyd i bobl sydd eisiau gweithio yn y sector drwy gysylltiadau lleol, Facebook ac ati."*

### Darparu hyfforddiant â thâl

Defnyddio potiau bach o gyllid i ddarparu hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer cyrsiau Cymraeg. Mae lle hefyd i ddarparu hyfforddiant sgiliau digidol wedi'i anelu at ymgeiswyr hŷn.

*"Ar gyfer y Gymraeg, rydyn ni'n cynnig cyrsiau ac yn talu am gyrsiau gyda'r nos."*

### Newid patrymau gwaith i gefnogi'r rhai sy'n cael hyfforddiant.

Caniatáu i staff weithio wrth gynyddu eu cymwysterau.

*"Rydym yn gadael i staff Lefel 2 gael rolau goruchwyllo dros dro (h.y., un diwrnod yr wythnos) i gael eu Lefel 3"*

## Pa newidiadau i'r system sydd eu hangen?

Heb ddiwygio'r system ehangach, ni fydd enillion bach o ran denu yn gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â'r argyfwng recriwtio. Mae'r argymhellion polisi yn dangos yr ystod o ymatebion y gall Llywodraeth Cymru a'r Senedd eu hystyried i fynd i'r afael ag argyfwng y gweithlu.

Tabl 10: Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

### Y newidiadau i'r system sydd eu hangen

- 1 Dull gweithredu ar draws y sector tuag at gyflogau.
- 2 Buddsoddiad cyfalaf tymor hwy yn y sector.
- 3 Ail-ddylunio systemau budd-daliadau.
- 4 Ymrwymiad gwell i gyd-gynhyrchu polisiâu a dulliau gweithredu.
- 5 Cydweithio rhwng sawl sector i ddatblygu cyflenwad o weithwyr yn y dyfodol.

Mae'r ymchwil hwn wedi tynnu sylw at y ffaith bod ymyriadau polisi yn gallu creu problemau newydd yn anfwriadol, er bod y polisiâu hynny wedi'u cynllunio gyda bwriadau da.

Er bod gan gyrff cyhoeddus amrywiaeth o adnoddau i ddeall effaith, gall y broses o gyfathrebu cyfaddawdau fod yn heriol. Gall natur gydgyssylltiedig heriau gofal cymdeithasol arwain at barlys gwleidyddol.

Drwy ategu methodoleg asesu effaith bresennol a modelu gyda'r trilema gofal, gall hyn helpu i ddangos effaith bosibl polisiâu mewn fformat y bydd gwneuthurwyr penderfyniadau sydd ag amrywiaeth o arddulliau a chefnidiroedd arwain yn ei ddeall.

Gellir rhoi prawf straen i weld effaith cynigion polisi ar bob agwedd – a gellir nodi polisiâu prin sy'n dal y tri nod yn eu cyfanrwydd, fel cynyddu cyflog.

## 1. Codiad cyflog ar draws y sector

**Mae pwysigrwydd cyflog yn thema gyson yn y llenyddiaeth, yn y prosiect hwn ac yn y rhan fwyaf o drafodaethau polisi. Mae angen ymrwymiad hirdymor a pharhaus i wella cyflogau ar gyfer swyddi EYCC.**

Fel y mae'r trilema gofal yn ei ddangos, mae'n debyg y byddai cyllid ychwanegol ar gyfer y sector sydd wedi'i dargedu at gynyddu cyflogau yn cael effaith sylweddol ar recriwtio a chadw staff ym maes gofal. Yn wir, cynyddu cyflogau yw'r unig ateb amlwg na fyddai'n cael effaith negyddol ar atyniad, statws nac ansawdd gofal.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o'r heriau ariannol sylfaenol ym maes gofal cymdeithasol – a'r berthynas sylfaenol rhwng y sefyllfa hon a recriwtio. Rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu polisi gyda'r ddealltwriaeth hon. Yn benodol:

- Gall canfyddiadau'r ymchwil hwn lywio'r broses o roi arferion cyflog teg ar waith
- Rhaid parhau i ystyried y gofynion sylfaenol o ran cyflog a chydaddoldeb â swyddi neu fandiau cyflog y GIG
- Rhaid parhau i wneud gwaith i osod disgwyliadau a therfynau cyson i awdurdodau lleol o ran cost pecynnau gofal.

## 2. Buddsoddiad cyfalaf tymor hwy yn y sector

Ar hyn o bryd, mae Gofalwn Cymru yn cael swm cymharol isel o gyllid ar sail tymor byr. Mae cyllidebau tymor byr ac amrywiol yn ei gwneud yn anodd i Gofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu cynlluniau strategol tymor hir. Mae hyn yn golygu bod llawer o waith Gofalwn Cymru wedi bod yn adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol.

Byddai cyllid ychwanegol a thymor hwy yn galluogi Gofalwn Cymru i ehangu ei weithgareddau ac adeiladu ar ei lwyddiant, gan ddarparu cymorth ychwanegol i'r sector a'i wneud yn fwy deniadol.

### 3. Ail-ddylunio systemau budd-daliadau

Mae'n bwysig mynd i'r afael â chymhlethdodau o ran y swyddi 16 awr ar gyfer budd-daliadau i'r dyfodol.

Er bod y rhan fwyaf o'r budd-daliadau hyn ar draws y DU, mae Llywodraeth Cymru yn gallu dylanwadu ar rai ohonynt. Yn benodol, mae gostyngiadau yn y dreth gyngor a'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi'u datganoli. Dylid cynllunio'r budd-daliadau hyn i gefnogi'r broses o gael gwaith a datblygu yn y gwaith, yn enwedig o ran osgoi cyfraddau sydyn tynnu'n ôl neu gymhellion i leihau oriau.

Mae trafodaeth fywiog hefyd ynghylch datganoli budd-daliadau ehangach ledled y DU – er enghraifft, gallu Llywodraeth yr Alban i amrywio elfennau o Gredyd Cynhwysol – a pha mor bell y dylid datganoli budd-daliadau eraill ledled y DU.

Wrth i'r ddadl hon ddatblygu, dylid ystyried y goblygiadau y gall unrhyw newidiadau i fudd-daliadau eu cael ar faterion recriwtio a chadw staff.

### 4. Ymrwymiad gwell i gyd-gynhyrchu polisïau a dulliau gweithredu

Yn y pen draw, er mwyn i newid ehangach fod yn llwyddiannus, mae angen i'r sector gefnogi polisïau a dulliau gweithredu. Ar hyn o bryd, mae ymdeimlad cryf nad yw Llywodraeth bob amser yn gwrando ar anghenion y sector.

Mae angen gweithio gyda lleoliadau EYCC i ddeall y ffordd orau o asesu ansawdd, a hynny mewn ffordd nad yw'n niweidio'r broses o ddenu, recriwtio a chadw. Yn benodol, mae angen gwneud y canlynol:

- **Ailystyried cwtâu staff cymwysedig.** O ystyried yr anawsterau wrth recriwtio staff cymwysedig, gall fod yn ddefnyddiol cyflwyno gofyniad is lle mai dim ond gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd ei angen ar weithwyr, a gwirio eu bod wedi cael hyfforddiant cynefino gorfodol (h.y. diogelu) i gyfrif tuag at gwtâu. Yn ddelfrydol, byddai'r cwrs Cyflwyniad i Ofal Plant yn gwrs cymeradwy.
- **Cefnogi cyflogwyr i fodloni gofynion hyfforddiant 16 awr.** Mae'n bwysig gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau nad ydynt yn cymhwyso myfyrwyr nad oes ganddynt yr oriau gofynnol. Yn ei dro, byddai hyn yn darparu gweithwyr ychwanegol i leoliadau EYCC drwy roi myfyrwyr ar leoliad, ac, er enghraifft, gellid targedu'r myfyrwyr hyn i lenwi bylchau ar ddiwrnodau pan fydd gweithwyr presennol yn cwblhau gwaith NVQ.
- **Ystyried goblygiadau cofrestru unigol yn ofalus.** Os bwriedir cofrestru'n unigol, mae angen peidio ag ailadrodd heriau sydd wedi codi ar ôl ehangu'r gofrestr gofal cymdeithasol, a dysgu o'r heriau hynny.

Drwy gyd-ddylunio dulliau, bydd hyn yn sicrhau bod lleoliadau a chyflogwyr yn teimlo bod ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth dros unrhyw newidiadau, ac y gellir nodi canlyniadau anfwriadol posibl yn gynharach. Mae hefyd yn cyfrannu at nodau ehangach Llywodraeth Cymru.

## 5. Cydweithio rhwng sawl sector i ddatblygu cyflenwad o weithwyr yn y dyfodol

Byddai'r awgrymiadau blaenorol yn arwain at welliannau tymor byr a thymor canolig o ran denu a recriwtio. Fodd bynnag, mae angen sicrhau cyflenwad cyson o weithwyr yn y dyfodol hefyd. Er y bydd cynyddu cyflogau yn bwysig, mae'n debygol na fydd hyn yn ddigon.

Mae llawer o'r awgrymiadau ar gyfer Gofalwn Cymru wedi'u hanelu at wella'r cyflenwad o weithwyr gofal posibl yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae yma rolau i Lywodraeth Cymru, y sector addysg a gwasanaethau gyrfaoedd hefyd. Dyma'r dewisiadau:

- Gwella'r ffordd o ddangos pwysigrwydd EYCC yng nghwricwlwm yr agenda dinasysddiaeth.
- Ychwanegu amrywiaeth o brofiadau sy'n gysylltiedig â gofal at elfen Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.
- Addasu'r Warrant i Bobl Ifanc fel y byddai'n rhaid i bobl rhwng 16 a 21 oed gwblhau chwe mis o wasanaeth cenedlaethol mewn sector sy'n cynnwys gofal cymdeithasol a gofal plant.
- Ymchwilio ymhellach i'r defnydd o rolau gwirfoddoli yn y sector. Gallai hyn hefyd gefnogi cynlluniau dychwelyd i'r gwaith.
- Datblygu systemau i alluogi profiad symudol (yn seiliedig ar gronfeydd data Gofal Cymdeithasol Cymru presennol yn hytrach na mynnu gwybodaeth ychwanegol gan gyflogwyr a gweithwyr), er mwyn i weithwyr allu symud yn haws rhwng rolau yn y system a/neu dderbyn rolau mewn sawl lleoliad (h.y. clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau).

---

# 6

## Casgliad





---

# Casgliad

**Mae'r heriau denu a recriwtio sy'n wynebu lleoliadau BCGP yng Nghymru yn gymhleth, gan newid yn ôl lleoliad daearyddol a'r math o ddarpariaeth.**

Mae yna lawer o gyflogwyr brwd iawn a'r rheini mewn rolau ategol sydd wrthi'n gweithio i wella delwedd lleoliadau BCGP a denu pobl atynt. Mae cyflogwyr wedi gweithredu ystod o strategaethau i leddfu eu heriau mewn mannau lleol, tra bo Gofalwn Cymru yn cefnogi lleoliadau BCGP o lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Fodd bynnag, mae lleoliadau BCGP yn parhau i gael trafferth, yn enwedig ond nid yn unig wrth recriwtio gweithwyr cymwys, wrth fodloni cwotâu ar gyfer staff cymwys, ac wrth sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i'r safon angenrheidiol.

Mae materion hirsefydlog cyflogau isel a diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus am werth gwaith BCGP yn achosi heriau pellach, tra bod ymrwymadau gwleidyddol i gynyddu mynediad at wasanaethau gofal plant yn cynyddu'r galw am wasanaethau a'r angen am weithwyr ychwanegol.

Mae llawer o heriau eraill y tu hwnt i gwmpas y sector gofal cymdeithasol a gofal plant i fynd i'r afael â nhw – fel y rhai sy'n ymwneud â system fudd-daliadau'r DU, materion gyda darparwyr hyfforddiant a chymwysterau, ac effeithiau'r argyfwng costau byw.

Felly mae angen newid ehangach yn y system.

---


# Atodiadau



# Atodiadau

## Atodiad I: Methodoleg

Cafodd y prosiect ei strwythuro ar draws pedwar cam allweddol. Casglwyd data rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023.



Ffigur 7: Strwythur y prosiect

## Dulliau casglu a dadansoddi data

Tabl 11: Dulliau casglu data prosiect

### Dulliau desg

Adolygiad llenyddiaeth o ymchwil lwyd ac ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid yn ymwneud â BCGP, polisïau yng Nghymru a'r DU, yn ogystal ag adolygiad o ddata a gasglwyd eisoes gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Adolygiad arfer gorau i archwilio maes ehangach recriwtio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant y tu hwnt i Gymru ac adolygu dulliau denu a recriwtio mewn sectorau heblaw gofal.

Ymarfer cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau (SWOT) helaeth sy'n cynnwys dwy brif lefel o ddadansoddi.

1. Cafodd nodiadau o'r adolygiadau desg ac ymgysylltu â rhanddeiliaid eu codio, gan gynhyrchu dros 20 tudalen o dystiolaeth.
2. Cafodd y codau eu categorio i feysydd thematig eang, megis 'rheoleiddio' neu 'proses ymgeisio', gan gynhyrchu 27 o godau neu feysydd thematig eang.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cyfweiliadau ar-lein ac ymgysylltu mewn fforymau ar-lein â 24 o gyflogwyr o bob math o leoliadau BCGP ar draws graddfeydd cenedlaethol a lleol, ac eithrio gwarchodwyr plant.

Cyfweiliadau ar-lein â 13 o bobl sy'n cynrychioli pum gwasanaeth sy'n ymwneud â chefnogi rolau yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant.

Cyflwynwyd canfyddiadau ac argymhellion allweddol yn ôl i'r sector gofal cymdeithasol a gofal plant ar draws dau weithdy gwirio synnwyr a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023.

## Atodiad II: Rhanddeiliaid allweddol yng nghyd-destun BCGP

Tabl 12: Rhanddeiliaid allweddol yng nghyd-destun BCGP

Sefydliad	Disgrifiad	Math o wasanaeth	Graddfa
Mudiad Meithrin <sup>32</sup>	Mae'r Mudiad Meithrin, sef mudiad gwirfoddol, yn darparu gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg i'r blynyddoedd cynnar.	Darparwyr cyfrwng Cymraeg.	Cymru
Blynyddoedd Cynnar Cymru <sup>33</sup>	Ei brif bwrpas yw gwella datblygiad ac addysg plant cyn oed ysgol yng Nghymru trwy annog eu rhieni i ddarparu ar gyfer eu hanghenion trwy ddarpariaeth cyn-ysgol o ansawdd uchel.	Grwpiau chwarae yn bennaf, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn.	Cymru
Clybiau Plant Cymru / The Kids' Clubs <sup>34</sup>	Trwy ei rwydwaith o glybiau plant y tu allan i'r ysgol, mae Clybiau Plant Cymru/ The Kids' Clubs yn hyrwyddo, datblygu a chefnogi cymunedau yng Nghymru.	Gofal plant y tu allan i'r ysgol.	Cymru
Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd <sup>35</sup>	Yng Nghymru, mae NDNA Cymru yn gymdeithas aelodaeth sy'n darparu cymorth, gwybodaeth, cyngor, arweiniad a hyfforddiant i weithwyr ym maes gofal plant, y blynyddoedd cynnar a meithrinfeydd.	Y sector preifat (Meithrinfeydd).	y DU
Cymdeithas broffesiynol gofal plant a blynyddoedd cynnar (PACEY) <sup>36</sup>	Cenhadaeth Pacey Cymru yw darparu cymorth i bobl sy'n gweithio gyda phlant ac yn gofalu amdanynt yng Nghymru. Cynorthwyo aelodau a gweithwyr gofal plant yng Nghymru i ddarparu'r safon uchaf o ofal plant yw un o brif flaenoriaethau Pacey Cymru.	Gwarchodwyr plant yn bennaf, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn.	y DU


Ar gyfer gwaith chwarae, Skills Active yw'r cyngor sgiliau a Chwarae Cymru a Chlybiau Plant Cymru Kids' Club yw'r cyrff allweddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad chwarae annibynnol a fydd, ymysg pethau eraill, yn trafod a fydd Skills Active yn parhau i fod y cyngor sgiliau ar gyfer gwaith chwarae yng Nghymru. Mae Chwarae Cymru yn cyd-drafod i'r rôl hon eistedd o fewn Gofal Cymdeithasol Cymru, ond ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniadau ffurfiol.

## Atodiad III: Mathau o leoliadau BCGP


Ceir llawer o wahanol fathau o leoliadau plentyndod cynnar, ond y termau a ddefnyddir amlaf yw lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. Cyfeiria'r term 'lleoliadau a gynhelir' at wasanaethau a ddarperir mewn ysgolion ond mae darpariaeth nas cynhelir yn cynnwys cymorth a ddarperir y tu allan i ysgolion megis gofal a chymorth a ddarperir gan warchodwyr plant neu wasanaethau gofal dydd.

Tabl 13: Mathau o leoliadau BCGP

Is-gategori	Diffiniad
Crèches i blant	Gofal dydd achlysurol i blant o enedigaeth hyd at 12 oed ar safleoedd annomestig. Mae angen iddynt fod wedi cofrestru lle maent yn rhedeg am fwy na dwy awr y dydd a mwy na phum diwrnod y flwyddyn, hyd yn oed pan fydd plant unigol yn mynychu am gyfnodau byrrach.
Gwasanaethau gofal dydd llawn i blant, e.e. meithrinfeydd	Lleoliad gofal dydd ar gyfer plant dan wyth oed ar safle annomestig am fwy na dwy awr mewn unrhyw un diwrnod a mwy na phum diwrnod y flwyddyn.
Gwasanaethau darpariaeth chwarae mynediad agored i blant E.e. cynlluniau chwarae	Gall darpariaeth chwarae Mynediad Agored wedi'i staffio sy'n gweithredu am fwy na 2 awr y dydd i blant hyd at 12 oed fod yn ddarpariaeth barhaol neu dros dro, a hynny mewn amrywiaeth o leoliadau gyda safle neu heb safle a gall gynnwys cynlluniau chwarae gwyliau. Mae'r ddarpariaeth hon fel arfer yn darparu ar gyfer ystod eang o blant, sydd fel arfer yn 5 oed a hŷn.
Gwasanaethau y tu allan i'r ysgol i blant, e.e. clwb ar ôl ysgol, clwb gwyliau	Lleoliadau sy'n cefnogi plant hyd at 12 oed heb fod yn fwy na dwy awr mewn unrhyw ddiwrnod ac sy'n gweithredu am fwy na phum diwrnod y flwyddyn. Mae'n cyfeirio at ofal plant y tu allan i ddiwrnod ysgol amser llawn y plentyndod ac mae'n cynnwys gofal a ddarperir cyn ysgol, ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Nid yw'n cynnwys gofal cofleidiol a chynllun brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd Llywodraeth Cymru.
Gwasanaethau gofal dydd sesiynol i blant, e.e. Cylch Meithrin neu Grŵp Chwarae	Gofal plant i blant o 2 oed a hŷn ar safle annomestig sydd am lai na chyfnod parhaus o 4 awr mewn unrhyw un diwrnod. Defnyddir y gwasanaeth yn bennaf gan blant rhwng 3 a 5 oed yn hytrach na babanod neu blant bach, er y gall rhai dderbyn plant 2 oed. Lle cynigir dwy sesiwn mewn unrhyw un diwrnod, ni ddylai plant fynychu mwy na 5 sesiwn yr wythnos. Rhaid cael seibiant rhwng sesiynau heb fod unrhyw blant yng ngofal y darparwr <sup>37</sup> .



Y Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant



Gwaith chwarae

## Atodiad IV: Dogfennau polisi sy'n effeithio ar gyd-destun BCGP

Rhestrir polisiâu allweddol sy'n effeithio ar BCGP yn nhrefn yr wyddor.

Tabl 14: Dogfennau polisi sy'n effeithio ar gyd-destun BCGP

---

### **Cynllun gweithlu gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar** (2017, Llywodraeth Cymru)

Mae'n amlinellu nod Llywodraeth Cymru o greu gweithlu gofal plant a chwarae medrus, ac yn sicrhau bod y sector hwn yn cael ei ystyried yn llwybr gyrfa dymunol sy'n cyfrannu at gefnogi datblygiad plant. Mae tair thema allweddol yn cynnwys 'denu recriwtiaid o ansawdd uchel, codi safonau a sgiliau, a buddsoddi mewn meithrin gallu'.

---

### **Cwricwlwm i Gymru/Dyfodol llwyddiannus** (2019, Llywodraeth Cymru)

Fe'i gelwir hefyd yn adolygiad Donaldson (Diwygio'r cwricwlwm a chwricwlwm newydd 3-16 oed o fis Medi 2022), ac mae'r diweddariad newydd wedi disodli Cwricwlwm presennol y Cyfnod Sylfaen yn y Blynyddoedd Cynnar.

---

### **Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr** (2017, Llywodraeth Cymru)

Mae'n nodi'r uchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith plant. Mae recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg yn y sector iechyd yn flaenoriaeth.

---

### **Canlyniadau'r blynyddoedd cynnar: fframwaith** (2015, Llywodraeth Cymru)

Fframwaith i alluogi Llywodraeth Cymru i nodi effaith polisiâu a rhaglenni yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

---

### **Dechrau'n Deg** (2007, Llywodraeth Cymru)

Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i hanelu at blant 0-3 oed 11 mis a'u teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd penodol o Gymru a ddiffinnir gan god post. Mae Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd sydd â phlant o dan 4 oed mewn ardaloedd diffreintiedig yng Nghymru.

---

### **Cyfnod Sylfaen** (2022, Llywodraeth Cymru)

Y cwricwlwm statudol yng Nghymru ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed. Fe'i cyflenwir yn y sector a gynhelir a nas cynhelir. Mae ar gael o'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn 3 oed ac mae'n canolbwyntio ar ddysgu trwy chwarae a dysgu drwy brofiad.

---

### **Mwy na geiriau – Cynllun pum mlynedd** (2022-27, Llywodraeth Cymru)

Mae'r strategaeth hon yn dilyn o'r fframweithiau strategol presennol. Ei nod yw gwella ansawdd y gofal i unigolion sy'n byw yng Nghymru drwy gydnabod cysyniad anghenion iaith mewn gwlad ddwyieithog. Un amcan allweddol yw darparu Cynnig Gweithredol sy'n "golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano". Un o'r grwpiau blaenoriaeth allweddol a nodwyd mewn fframweithiau a chynlluniau gweithredu yw plant a phobl ifanc. Mae tair thema yn strwythuro'r dull sy'n cynnwys cynllunio a pholisiâu, sgiliau Cymraeg y gweithlu, a rhannu arfer gorau.

---

### **Adolygiad Gweinidogol o Chwarae** (2019, Llywodraeth Cymru)

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gynnal adolygiad polisi chwarae annibynnol. A maes sectorau'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae yn newid, mae'n amser hwylus i ganolbwyntio ar bolisi chwarae yng Nghymru ac adolygu'r polisi, gweledigaeth a chyfeiriad ar gyfer y rhan hon o'r sector.

### **Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd** (2017, Llywodraeth Cymru)

Yn amlinellu sut mae Cymru yn anelu at dyfu mewn ffordd sy'n gynhwysol, yn hyrwyddo lles ac yn lledaenu cyfle. Nodir pum maes blaenoriaeth allweddol o ran llesiant sy'n cynnwys y blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, sgiliau a chyflogadwyedd.

### **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021** (2016-2021, Llywodraeth Cymru)

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hynny. Maent yn fesurau uchelgeisiol sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth i bawb, ym mhob cyfnod o'u bywydau.

### **Y Cynnig Gofal Plant i Gymru** (2022, Llywodraeth Cymru)

Menter Llywodraeth Cymru sy'n darparu 30 awr o ofal plant i rieni cymwys sy'n gweithio ar gyfer plant 3 i 4 oed yn unig. Bydd y 30 awr o ofal plant yn gyfuniad o Feithrinfa Cyfnod Sylfaen (FPN) Cwricwlwm i Gymru (rhwng 10 a 12.5 awr) a gofal plant (rhwng 17.5 ac 20 awr), am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

---

# Cyfeiriadau





---

# Cyfeiriadau

- <sup>1</sup> Steadman and Lewis (2022) [Early Years Survey I Arad Report](#)
- <sup>2</sup> Clybiau Plant Cymru (2022) [Canlyniadau ein Harolwg Clybiau Cenedlaethol 2022](#)
- <sup>3</sup> Steadman and Lewis (2022) [Early Years Survey I Arad Report](#)
- <sup>4</sup> Gofalwn Cymru (2023) [Hafan](#)
- <sup>5</sup> Steadman and Lewis (2022) [Early Years Survey I Arad Report](#)
- <sup>7</sup> Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (2018/2019) [Arolwg Gweithlu Cymru NDNA 2018/19](#)
- <sup>7</sup> Ymchwil gymdeithasol y Llywodraeth (2022) [Adolygiad annibynnol: Cofrestru'r gweithlu gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru](#)
- <sup>8</sup> Llywodraeth Cymru (2016) [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed](#)
- <sup>9</sup> Arolygydd Gofal Cymru (2018) [Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC, 31 Mawrth 2018](#)
- <sup>10</sup> Plant yng Nghymru (2021) [Blynyddoedd Cynnar](#)
- <sup>11</sup> Llywodraeth Cymru (2016) [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed](#)
- <sup>12</sup> Clybiau Plant Cymru (2020) [Beth yw Gwaith Chwarae?](#)
- <sup>13</sup> Cyngor Abertawe (2021) [Mathau o ofal plant \(cofrestredig ac anghofrestredig\)](#)
- <sup>14</sup> Arolygydd Gofal Cymru (2018) [Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC, 31 Mawrth 2018](#)
- <sup>15</sup> Meithrinfeydd dydd (2021) [Safonau cenedlaethol ar gyfer dysgu cynnar a gofal plant yng Nghymru](#)
- <sup>16</sup> Llywodraeth Cymru (2016) [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed](#)
- <sup>17</sup> Llywodraeth Cymru (2010) [Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd \(Cymru\) 2010](#)
- <sup>18</sup> Arolygydd Gofal Cymru (2023) [Hafan](#)
- <sup>19</sup> Estyn (2023) [Croeso i Estyn](#)
- <sup>20</sup> CWLWM (2023) [Beth rydyn ni'n ei wneud](#)
- <sup>21</sup> Llywodraeth Cymru (Dim dyddiad) [Sector Gofal Plant, Gwaith Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar \(GPGChBC\) Cymru: cysylltiadau](#)
- <sup>22</sup> Gofal Cymdeithasol Cymru (Dim Dyddiad) Beth ydym yn ei olygu wrth gyfeirio at y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (BCGP)?
- <sup>23</sup> Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol: Symud Cymru Ymlaen](#)
- <sup>24</sup> Llywodraeth Cymru (2016) [Symud Cymru Ymlaen 2016-2021](#)
- <sup>25</sup> Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol: Symud Cymru Ymlaen](#)
- <sup>26</sup> Llywodraeth Cymru (2016) [Symud Cymru Ymlaen 2016-2021](#)
- <sup>27</sup> Llywodraeth Cymru (2021) [Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad Ilesiant](#)
- <sup>28</sup> Llywodraeth Cymru (2017) [Canllawiau Rhaglen Iechyd Dechrau'n Deg](#)
- <sup>29</sup> Teuluoedd sy'n Gweithio (2023) [Cymru – Gofal plant am ddim i blant 2, 3 a 4 oed](#)

- <sup>30</sup> I fod yn gymwys am Gymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith, rhaid gweithio llai nag 16 awr o waith cyflogedig yr wythnos. Ond, er mwyn bod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith, rhaid gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos. Nid yw oriau gwaith yn effeithio ar greddyd cynhwysol. [\*\*Oriau gwaith: rheolau budd-daliadau – Sut mae oriau gwaith yn effeithio ar fudd-daliadau?\*\*](#)
- <sup>31</sup> Gweler yr adroddiad cysylltiedig '*Deall ymddygiadau ceisio gwaith: mewnwleidiadau i ofal cymdeithasol Cymru*' am ragor o fanylion.
- <sup>32</sup> Mudiad Meithrin (2023) [\*\*Hafan\*\*](#)
- <sup>33</sup> Blynyddoedd Cynnar Cymru (2023) [\*\*Hafan\*\*](#)
- <sup>34</sup> Clybiau Plant (2023) [\*\*Amdanom ni\*\*](#)
- <sup>35</sup> Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (2023) [\*\*Gair am NDNA\*\*](#)
- <sup>36</sup> PACEY (2023) [\*\*Gair am PACEY\*\*](#)
- <sup>37</sup> Llywodraeth Cymru (2018) [\*\*Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGC, 31 Mawrth 2018\*\*](#)

Paratowyd gan



[urbanforesight.org](https://urbanforesight.org)



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

[socialcare.wales](https://socialcare.wales)

© Urban Foresight Limited, 2024.  
Cedwir pob hawl.

